

MILLER
Research Evaluation Consulting

Llunio Cynllun Hinsawdd Nesaf Cymru: Barn y Cyhoedd a Rhanddeiliaid

Y prif adroddiad o'r ymgynghori ar gyfer Cynllun Cyllideb Carbon 3 Cymru (2026-2030)

Hydref 2026

Llywodraeth Cymru

Miller Research (UK) Ltd.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
sean@miller-research.co.uk

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
Cyd-destun polisi 4
Y rhaglen ymgynghori 4
Diben yr adroddiad hwn 7
Strwythur yr Adroddiad 8
2. Dull 9
Trosolwg 9
Fframwaith dadansoddi 9
Dadansoddiad 10
Adrodd 10
Cyfyngiadau 11
3. Canfyddiadau Cyffredinol 13
Rhwystrau rhag Cynnydd 13
Newid Ymddygiad yn Gynt 14
Gwireddu Potensial 15
Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch 15
Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg 16
Casgliad 16
4. Tai 18
Rhwystrau rhag Cynnydd 18
Newid Ymddygiad yn Gynt 19
Gwireddu Potensial 22
Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch 24
Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg 24
5. Amaethyddiaeth a Defnydd Tir 26
Rhwystrau rhag Cynnydd 26
Newid Ymddygiad yn Gynt 27
Gwireddu Potensial 29
Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch 31
Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg 32
6. Trafnidiaeth 33
Rhwystrau rhag Cynnydd 33
Newid Ymddygiad yn Gynt 34
Gwireddu Potensial 36
Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch 38
Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg 38

7. Casgliad 40
1. Galluogi Newid 40
2. Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymunedau 40
3. Cynllunio ar gyfer Tegwch o'r Cychwyn 41
4. Canolbwyntio ar Newidiadau a ddaw â Manteision Lluosog 41
Casgliad 41

1. Cyflwyniad

Cyd-destun polisi

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu cyllidebau carbon olynol sy'n gosod terfynau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr dros gyfnodau o bum mlynedd. Mae Cyllideb Carbon 3 (y Gyllideb) yn ymwneud â'r cyfnod 2026 i 2030. Gyda disgwyl iddi gael ei chyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn, bydd yn pennu'r cam nesaf yn nhaith Cymru at ddyfodol glanach. Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd wedi ei ysgrifennu yn ein deddfau, gyda thargedau wedi eu rhwymo mewn cyfraith a chyllidebau carbon sy'n rhoi Cymru ar lwybr at sero net erbyn 2050. Mae cyllideb carbon yn debyg iawn i gyllideb ariannol ac mae'n rhoi inni uchafswm o garbon y gallwn ei 'wario' neu ei allyru dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd y Cynllun newydd yn nodi sut y byddwn yn lleihau allyriadau, gan sicrhau y gall pobl, cymunedau a busnesau elwa o'r pontio.

Roedd ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn elfen ganolog o ddatblygiad Cynllun Cyllideb Carbon 3, a roddodd dystiolaeth ar flaenoriaethau'r cyhoedd, rhwystrau canfyddedig a chyfleoedd ar gyfer cyflymu'r pontio i sero net. Roedd y rhaglen yn ceisio deall y cyfleoedd, rhwystrau a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth sicrhau bod y pontio at sero net yn deg, yn gynhwysol ac yn cyflawni manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Y rhaglen ymgynghori

Rhwng misoedd Hydref 2025 a Chwefror 2026, comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen drwyadl o ymgynghori i osod sail ar gyfer Cynllun Cyllideb Carbon 3. Roedd y rhaglen yn cynnwys amryw o weithgareddau atodol a gynhaliwyd cyn, yn ystod ac ar ôl Wythnos Hinsawdd Cymru, gyda phob un wedi'i lunio i gynnwys gwahanol gynulleidfaoedd trwy amrywiaeth o ddulliau cyfranogol. Ers i'r rhain ddigwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gyd-drafod â rhanddeiliaid ynghylch y Cynllun drwy gydol 2026 hyd nes ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.

Cynhaliwyd gweithgarwch ymgynghori trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a fformatau yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn canfod safbwyntiau gwahanol gynulleidfaoedd ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Wythnos Hinsawdd Cymru, cynhadledd rithwir a ddaeth â siaradwyr, rhanddeiliaid a mynychwyr at ei gilydd trwy raglen o sesiynau ar-lein; digwyddiad ieuenctid Bluestone a gynhaliwyd ym mis Hydref, a oedd yn cynnwys grŵp bach o bobl ifanc o ysgolion lleol; dau weithdy creu gweledigaeth CAST yn Wrecsam a Chanolbarth Cymru, a fynychwyd gan aelodau o'r cyhoedd; a chyfres o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd (CCF) a gynhaliwyd ledled Cymru, a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth helaeth o gyfranogwyr gan gynnwys grwpiau cymunedol, aelodau o'r cyhoedd a phobl ifanc.

Cefnogwyd y gweithgareddau ymgynghori gan bapur trafod Pontio i Sero Net yn 2026 i 2030 a thu hwnt, yn ogystal â ffilm Y Ras i Greu Dyfodol Tecach a Gwyrddach | The Race to Build a Greener, Fairer Future. Roedd y dogfennau hyn, a'r hwyluswyr yn helpu cyfranogwyr i gyfrannu, a gyda'i gilydd roedd y gweithgareddau hyn yn cynhyrchu sail sylweddol o dystiolaeth sy'n cynnwys crynodebau hwyluswyr, adroddiadau gweithdai, allbynnau cyfranogwyr, data arolygon ac adborth cyfranogwyr.

Comisiynwyd Miller Research i gyfuno'r dystiolaeth hon ac i ganfod y prif themâu a ddaeth i'r amlwg drwy'r holl raglen ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r dadansoddiad hwnnw.

Roedd y rhaglen ymgynghori'n cyfuno cyd-drafod cenedlaethol â rhanddeiliaid gyda digwyddiadau cymunedol a gyflwynwyd yn lleol a gweithdai trafod. Roedd mynd ati trwy ddulliau cymysg fel hyn yn galluogi casglu tystiolaeth o amrywiaeth helaeth o gynulleidfaoedd, gan alluogi triongli canfyddiadau o wahanol ddulliau ymgynghori wrth ddadansoddi.

Presenoldeb

Cyrhaeddodd y rhaglen ymgynghori amrywiaeth helaeth o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd ledled Cymru trwy sawl dull ymgynghori ategol. Roedd cyfranogiad yn amrywio rhwng gweithgareddau, gan adlewyrchu eu gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd targed. Cyflwynir presenoldeb y rhaglen isod:


Gweithgaredd Ymgynghori	Crynodeb Cyfranogi
Sgyrsiau Hinsawdd	168 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu gan 69 o drefnwyr
	3,663 o gyfranogwyr wedi adrodd ar y digwyddiadau
	Roedd trefnwyr 17 o ddigwyddiadau heb ddarparu data demograffig ar fynychwyr
Digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig Climate Cymru	Fe wnaeth 11 o sefydliadau gymryd rhan
Gweithdai Creu Gweledigaeth CAST	31 o fynychwyr mewn 2 weithdy yn Wrecsam ar 7 Chwefror a Llanfair-ym-Muallt ar 11 Chwefror
Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru	Cyfanswm o 793 o gofrestriadau a 462 o fynychwyr
Diwrnod Tai (dydd Llun)	Presenoldeb uchaf mewn sesiwn: 153 Cyfartaledd presenoldeb sesiwn: 112
Diwrnod Trafnidiaeth (dydd Mawrth)	Presenoldeb uchaf mewn sesiwn: 103 Cyfartaledd presenoldeb sesiwn: 84
Diwrnod Amaethyddiaeth a Defnydd Tir (dydd Mercher)	Presenoldeb uchaf mewn sesiwn: 92 Cyfartaledd presenoldeb sesiwn: 70

Demograffeg Sgyrsiau Hinsawdd

Cynhaliwyd digwyddiadau Sgwrs Hinsawdd mewn 19 allan o 22 awdurdod lleol, gyda chynrychiolaeth arbennig o gryf o Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Powys.

Roedd y gynrychiolaeth Gymraeg / ddwyieithog ganlynol yn y digwyddiadau:

Ffigur 1: Ym mha iaith y cyflwynwyd eich digwyddiad? (n=50)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ffurflenni Adborth Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd


Ymysg ymatebwyr, ni wnaeth 64% o'r cyfranogwyr ddatgelu eu lefel o ruglder yn y Gymraeg, fodd bynnag roedd 17% yn disgrifio'u hunain fel siaradwyr Cymraeg rhugl a 10% ychwanegol fel dysgwyr Cymraeg.

Roedd gwybodaeth am gyflogaeth yn anghyflawn yn yr un modd, gyda dim ond 46% o gyfranogwyr yn datgelu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, roedd y gyfran fwyaf mewn galwedigaethau proffesiynol modern (12%), ac yna alwedigaethau clerigol a chanolraddol (5%). Roedd 23% yn disgrifio'u hunain fel myfyrwyr, tra bod 10% yn ddi-waith a 10% wedi ymddeol.

Ymysg cyfranogwyr a ddarparodd wybodaeth ddemograffig, roedd 56% yn disgrifio'u hunain fel merched a 44% fel dynion.

Ymysg cyfranogwyr a ddatgelodd eu ethnigrwydd (ffigur 2), roedd y grŵp mwyaf yn disgrifio'u hunain fel Gwyn, Prydeinwyr Gwyn neu Gymry Gwyn (34%). Ni chafodd ethnigrwydd ei adrodd yn achos 29% o gyfranogwyr.


Ffigur 2: Canran y cyfranogwyr yn ôl ethnigrwydd (n=3663)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ffurflenni Adborth Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd

Pobl ifanc 24 oed ac iau oedd y grŵp oedran mwyaf a gynrychiolwyr (34%), tra bod cyfranogwyr 65 oed a throsodd yn cyfrif am 9% o ymatebwyr (ffigur 3).

Ffigur 3 Canran y cyfranogwyr yn ôl grŵp oedran (n=3663)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ffurflenni Adborth Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd

Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad thematig o'r dystiolaeth a gynhyrchwyd trwy'r rhaglen ymgynghori ar Gyllideb Carbon 3.

Mae'r dadansoddiad yn tynnu tystiolaeth ynghyd o'r gwahanol weithgareddau ymgynghori i ganfod themâu cyffredin, meysydd o gytundeb a materion a godwyd gan gyfranogwyr. Mae tystiolaeth wedi cael ei threfnu o amgylch tri maes polisi roedd y rhaglen ymgynghori'n canolbwyntio arnynt:

- tai
- trafnidiaeth
- amaethyddiaeth a defnydd tir.

O fewn pob maes polisi, caiff canfyddiadau eu cyflwyno yn ôl y pum cwestiwn ymchwil a oedd yn arwain y rhaglen ymgynghori. Gweithredwyd fframwaith dadansoddi cyffredin ar draws pob ffynhonnell dystiolaeth er mwyn galluogi cymhariaeth a dadansoddiad cyson o ganfyddiadau o'r gwahanol weithgareddau ymgynghori.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno tystiolaeth ansoddol a gasglwyd drwy'r rhaglen ymgynghori ac mae'n adlewyrchu barn cyfranogwyr a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori. Ni ddylid dehongli'r canfyddiadau fel rhai sy'n ystadegol gynrychioliadol o boblogaeth ehangach Cymru.

Nid yw'r dadansoddiad yn cyflwyno canfyddiadau o bob gweithgaredd ymgynghori ar wahân. Yn hytrach, mae'n cyfuno tystiolaeth ar draws y rhaglen er mwyn canfod themâu cyson, safbwyntiau cyferbyniol a meysydd lle'r oedd canfyddiadau'n amrywio rhwng grwpiau cyfranogwyr.

Strwythur yr Adroddiad

Mae Pennod 2 yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu, codio a chyfuno'r dystiolaeth. Mae'n amlinellu'r fframwaith dadansoddi a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddiad ac yn trafod cryfderau a chyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael.

Mae Pennod 3 yn amlinellu'r canfyddiadau trawsbynciol cyffredinol a ddaeth i'r amlwg ar draws sawl sector.

Mae Penodau 4-6 yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer pob maes polisi. O fewn pob adran, trefnir tystiolaeth yn ôl y pum cwestiwn ymchwil a oedd yn arwain y rhaglen ymgynghori ac mae'n tynnu canfyddiadau at ei gilydd o'r gwahanol weithgareddau ymgynghori.

Mae'r adroddiad yn diweddu trwy grynhoi'r prif ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r rhaglen ymgynghori a'u perthnasedd i ddatblygu Cynllun Cyllideb Carbon 3.

2. Dull

Trosolwg

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research i gyfuno tystiolaeth a gynhyrchwyd trwy'r rhaglen ymgynghori. Ceisiodd y dadansoddiad ganfod y prif themâu, cyfleoedd, rhwystrau a blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a chyfuno'r rhain o fewn fframwaith dadansoddi cyffredin i osod sail ar gyfer datblygu Cynllun Cyllideb Carbon 3.

Defnyddiodd y dadansoddiad dystiolaeth a gynhyrchwyd trwy'r pedwar gweithgaredd ymgynghori a gynhaliwyd rhwng misoedd Hydref 2025 a Chwefror 2026:

Gweithgaredd ymgynghori	Tystiolaeth a adolygwyd
Digwyddiadau Cymunedol Sgyrsiau am yr Hinsawdd	Adroddiadau trefnwyr, adborth cyfranogwyr, gwybodaeth ddemograffig a dogfennaeth ategol a gyflwynwyd yn dilyn digwyddiadau ymgynghori cymunedol. Yn ogystal ag adroddiadau templed safonol trefnwyr, cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol gan Leiafrifoedd Ethnig Climate Cymru a ddaeth â chyfranogwyr at ei gilydd o amrywiaeth o ddigwyddiadau Sgyrsiau Hinsawdd i gyfuno canfyddiadau o'u rhwydwaith lleiafrifoedd ethnig. Cyfeir at hyn fel papur ymgynghori lleiafrifoedd ethnig Climate Cymru.
Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru	Crynodebau sesiynau, nodiadau hwyluswyr, allbynnau trafodaethau cyfranogwyr, crynodebau allweddol, data arolygon byw ac ymgynghori ar-lein.
Gweithdai Creu Gweledigaeth CAST	Adroddiadau gweithdai, gwerthusiadau cyfranogwyr ac allbynnau "Cardiau Post o'r Dyfodol".
Gweithdai ysgolion Bluestone	Crynodebau hwyluswyr ac allbynnau o weithgareddau gyda phlant ysgol.

Cafodd pob gweithgaredd ei lunio ar gyfer cynulleidfa wahanol ac fe wnaethant gynhyrchu gwahanol ffurfiau o dystiolaeth, a oedd yn adlewyrchu ei amrywiol amcanion a dull ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n cyflwyno canfyddiadau o ymchwil sylfaenol a gyflawnwyd gan Miller Research.

Fframwaith dadansoddi

Datblygwyd fframwaith dadansoddi cyffredin er mwyn galluogi i dystiolaeth o'r gwahanol weithgareddau ymgynghori gael ei ddadansoddi'n gyson.

Trefnwyd y fframwaith o amgylch y tri maes polisi a archwiliwyd trwy'r rhaglen ymgynghori:

- Tai
- Trafnidiaeth
- Amaethyddiaeth a defnydd tir

O fewn pob maes polisi, tystiolaeth ei chodio ar sail y pum cwestiwn ymchwil a arweiniodd y rhaglen ymgynghori:

- Sut allwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf?
- Sut ydyn ni'n gwireddu'r potensial yng Nghymru i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni'n cartref, a'i gwneud yn haws i symud o gwmpas mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?
- Sut allwn ni leihau allyriadau ac ar yr un pryd wella'n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid?
- Pa rwystrau sy'n sefyll yn ein ffordd, a sut allwn ni eu chwalu?
- Pa risgiau neu ganlyniadau mae angen inni weithio gyda'n gilydd i'w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?

Roedd gweithredu'r fframwaith hwn yn galluogi i dystiolaeth o amrywiol weithareddau ymgynghori gael ei dadansoddi trwy ddefnyddio strwythur cyson gan gadw'r cyd-destun y cafodd ei chynhyrchu ynddo.

Dadansoddiad

Cafodd tystiolaeth ansoddol ei dadansoddi trwy ddefnyddio dadansoddi thematig.

Cafodd tystiolaeth o bob gweithgaredd ymgynghori ei adolygu a'i godio yn unol â'r maes polisi a'r cwestiwn ymchwil perthnasol. Canfuwyd themâu mewn modd ffeithiol o fewn pob categori dadansoddiadol cyn iddynt gael eu hadolygu ar draws ffynonellau tystiolaeth i ganfod patrymau ailadroddus, meysydd o gonsensws a safbwyntiau cyferbyniol. Cafodd y fframwaith codio ei fireinio dro ar ôl tro drwy gydol y dadansoddiad er mwyn sicrhau bod themâu cysyniadol debyg yn cael eu dosbarthu'n gyson tra'n cadw gwahaniaethau cyd-destunol pwysig rhwng gweithgareddau ymgynghori.

Cafodd tystiolaeth feintiol, yn bennaf data arolwg cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru a gwybodaeth ddemograffig am gyfranogwyr, eu dadansoddi mewn disgrifiadol. Defnyddiwyd canfyddiadau meintiol i roi cyd-destun a thriongli'r tystiolaeth ansoddol lle bo'n addas, ond nis dehonglwyd yn annibynnol.

Mae'r dadansoddiad terfynol yn integreiddio tystiolaeth ar draws yr holl weithgareddau ymgynghori er mwyn canfod themâu parhaus, safbwyntiau gwahanol a materion a ddaeth i'r amlwg yn unigryw o fewn grwpiau penodol o gyfranogwyr neu leoliadau ymgyngori.

Adrodd

Er mwyn ei wneud yn haws ei ddarllen a gwella tryloywder, defnyddir cyfeiriadau ffynonellau wedi eu talfyrru o bryd i'w gilydd yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn dangos ffynhonnell y dystiolaeth sy'n cefnogi pob canfyddiad. Amlinellir y rhain isod i gyfeirio atynt:

Talfyriad / Cod	Ffynhonnell
Cronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd (Y Gronfa) (CCF)	Adborth Digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd
Cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru (Yr Wythnos Hinsawdd)	Nodiadau siaradwyr a chyfranogwyr o ddyddiau themâu cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru.
Gweithdai Creu Gweledigaeth CAST	Adroddiadau gweithdai creu gweledigaeth CAST
Cardiau Post o'r Dyfodol	Allbynnau "Cardiau Post o'r Dyfodol" (PF) CAST.
Ymgynghoriad Lleiafrifoedd Ethnig	Papur ymgynghori Lleiafrifoedd Ethnig Climate Cymru (CCEM): agweddau Lleiafrifoedd Ethnig ar Dai, Trafnidiaeth, ac Amaethyddiaeth a Defnydd Tir yng Nghymru
Bluestone	Adroddiadau gweithgorau Bluestone a Maint Cymru

Er mwyn helpu i ddehongli'r canfyddiadau ansoddol, mae'r adroddiad yn defnyddio disgrifyddion dangosiadol i adlewyrchu mynychder y themâu a ganfuwyd yn ystod y dadansoddiad. Bwriad y disgrifwyr yw dangos amlygrwydd cymharol themâu o fewn dystiolaeth wedi'i chodio yn hytrach na nifer y cyfranogwyr yn mynegi barn benodol.

Disgrifydd	Nifer y cyfeiriadau wedi'u codio
Un cyfranogwr/ffynhonnell	1
Dau gyfranogwr/ffynhonnell	2
Amryw o gyfranogwyr/ffynonellau	3–4
Llawer o gyfranogwyr/ffynonellau	5 neu fwy

Yn wyneb yr amrywiad mewn fformatau adrodd rhwng gwahanol weithgareddau ymgynghori, dylid dehongli'r disgrifyddion hyn fel rhai dangosol yn hytrach na mesurau ystadegol ystyrlon o gyffredinrwydd.

Cyfyngiadau

Cynhyrchodd y rhaglen ymgynghori dystiolaeth o amrywiaeth helaeth o gyfranogwyr gan ddefnyddio gwahanol ddulliau ymgynghori. Roedd cyfuno'r ffynonellau hyn yn darparu sail dystiolaeth engach i gefnogi datblygiad Cynllun Cyllideb Carbon 3.

Dylai'r canfyddiadau, fodd bynnag, gael eu dehongli yng ngoleuni amryw o gyfyngiadau.

Amrywiaeth ffynonellau tystiolaeth

Cafodd y gweithgareddau ymgynghori eu cynllunio'n annibynnol i gyflawni gwahanol amcanion ac ennyn ymateb gwahanol gynulleidfaoedd. O ganlyniad, roedd y dystiolaeth yn amrywio mewn strwythur, dyfnder a fformat.

Roedd tystiolaeth yn cynnwys crynodebau hwyluswyr, adroddiadau trefnwyr, allbynnau gweithdai, gwerthusiadau cyfranogwyr, crynodebau allweddol, data arolygon barn a myfyrdodau ysgrifenedig. Roedd rhai ffynonellau'n ymdrin yn uniongyrchol â

chwestiynau penodol yr ymchwil, tra bod eraill yn darparu crynodebau o drafodaethau ehangach.

Roedd y fframwaith dadansoddi yn galluogi i'r amrywiol ffynonellau hyn cael eu cyfuno'n gyson. Yn unol â hyn, mae'r dadansoddiad yn nodi themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws y sail dystiolaeth gyfunol yn hytrach na chymharu gweithgareddau ymgynghori unigol yn uniongyrchol.

Cysondeb adrodd

Cafodd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ansoddol ei ddarparu fel crynodebau hwyluswyr neu drefnwyr yn hytrach na chofnodion llythrennol o drafodaethau. Roedd graddau'r manylder a'r pwyslais felly'n amrywio rhwng gweithgareddau ac yn adlewyrchu trafodaethau cyfranogwyr a dehongliad hwyluswyr.

Yn yr un modd, roedd fformatau adrodd yn amrywio ar draws y rhaglen ymgynghori. Er enghraifft, roedd adroddiadau Sgyrsiau Hinsawdd yn amrywio o ran graddau'r manylder a ddarparwyd, tra bod cwestynau arolwg y gynhadledd rithwir yn gwahaniaethu rhwng sesiynau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cyfyngu ar y graddau y gellir cymharu tystiolaeth ar draws gweithgareddau ymgynghori.

Cynrychiolaeth

Cafodd y rhaglen ymgynghori ei llunio i arwain datblygiad polisi yn hytrach nag i gynhyrchu canfyddiadau ystadegol gynrychioliadol. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio trwy amrywiaeth o ddulliau ymgynghori a dewis gwirfoddol oedd cymryd rhan. Yn ogystal, defnyddiwyd data arolwg o'r gynhadledd rithwir i arwain trafodaeth ar y diwrnod yn hytrach na darparu canfyddiadau ystadegol gynrychioliadol. Roedd graddau cyfranogi yn yr arolygon barn hefyd yn gyfyngedig, gyda niferoedd cymharol fach o fynychwyr yn ymateb i'r cwestiynau unigol, a dylai'r canlyniadau felly gael eu trin fel rhai dangosol yn unig.

Mae'r canfyddiadau felly'n adlewyrchu barn a phrofiadau'r rheini a gymerodd rhan yn y gweithgareddau ymgynghori ac ni ddylid eu dehongli fel pe baent yn gynrychioliadol o boblogaeth ehangach Cymru.

Dehongli tystiolaeth ansoddol

Fel gyda'r ymchwil ansoddol, mae dadansoddi thematig yn ymwneud â dyfarniad ymchwilydd wrth godio a dehongli tystiolaeth. Defnyddiwyd fframwaith dadansoddi a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol cyffredin i hyrwyddo cysondeb drwy'r holl ddadansoddiad. Er hynny, gall gwahanol ddehongliadau o ddarnau unigol o dystiolaeth fod yn bosibl.

3. Canfyddiadau Cyffredinol

Canfu'r dadansoddiad ar draws y rhaglen ymgynghori amryw o themâu a godwyd yn gyson ar draws sawl maes polisi a gweithgaredd ymgynghori. Er bod gan bob maes polisi ei faterion penodol ei hun, daeth nifer o gyfleoedd, rhwystrau, a blaenoriaethau i'r amlwg dro ar ôl tro. Mae'r canfyddiadau trawsbynciol hyn yn rhoi cyd-destun pwysig i'r dadansoddiad sectorol manylach a gyflwynir yn y penodau canlynol.

Rhwystrau rhag Cynnydd

Drwy'r holl raglen ymgynghori, roedd cyfranogwyr yn gyson yn nodi rhwystrau amryw o rwystrau cyffredin wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa rwystrau sy'n sefyll yn ein ffordd?". Caiff dulliau posibl o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn eu harchwilio mewn adrannau diweddarach ar newid ymddygiad yn gynt a gwireddu potensial.

Ymwybyddiaeth

Canfyddiad cyson ar draws sectorau oedd pwysigrwydd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wrth alluogi gweithredu ar yr hinsawdd. Roedd cyfranogwyr yn nodi bylchau mewn gwybodaeth am gyllid sydd ar gael, cynlluniau cymorth, technolegau a chyfleoedd, law yn llaw â heriau ehangach yn ymwneud â llythrennedd hinsawdd a deall prosesau penderfynu. Cafodd cyfathrebu cliriach, gwybodaeth haws ei gael, a mwy o rannu enghreifftiau ymarferol eu nodi fel galluogwyr pwysig o newid. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod gwella ymwybyddiaeth yn her o ran cyfathrebu ac yn rhagamod ar gyfer galluogi cyfranogi gwybodus ar draws sawl maes o'r pontio at sero net.

Cyfyngiadau Seilwaith

Roedd cyfranogwyr yn aml yn amlygu seilwaith fel rhwystr rhag cynnydd. Mewn trafnidiaeth, roedd pryderon yn canolbwyntio ar ddibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith teithio llesol, a darpariaeth gwefru cerbydau trydan. Mewn amaethyddiaeth, roedd cyfranogwyr yn tynnu sylw at gyfyngiadau mewn seilwaith i gefnogi cadwyni cyflenwi ac arloesi lleol. Ar draws sectorau, roedd barn fod unigolion a chymunedau yn llai abl i fabwysiadu arferion carbon-is lle nad oes seilwaith ategol yn ei le. Roedd cyfranogwyr felly'n gweld buddsoddiad seilwaith fel amod angenrheidiol ar gyfer newid ymddygiad, hytrach na rhywbeth sy'n digwydd o ganlyniad iddo.

Ymddiriedaeth a Hyder

Ar draws sectorau, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ymddiriedaeth mewn polisïau, sefydliadau a phrosesau pontio. Codwyd pryderon lle'r oedd cymunedau'n teimlo diffyg cyswllt â phrosesau penderfynu neu â diffyg hyder mewn cynlluniau a thechnolegau. Roedd cyfranogwyr yn amlygu gwerth cyfathrebu tryloyw, ymgynghori ystyrlon a chyfleoedd i gymunedau ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Cost a Fforddiadwyedd

Daeth cost i'r amlwg fel un o'r rhwystrau mwyaf cyson ar draws sectorau. Roedd cyfranogwyr yn amlygu cost technolegau carbon-isel, opsiynau teithio cynaliadwy, mesurau ôl-osod a newidiadau i arferion ffermio fel ffactor allweddol wrth ddewis dewisiadau llai cynaliadwy. Roedd barn gyffredin y gall rhwystrau ariannol gyfyngu ar gymryd rhan yn y pontio a bod iddynt y risg o allgáu'r rheini sydd â llai o adnoddau. Roedd hyn yn un o'r amryw o themâu i ddod i'r amlwg yn gyson ar draws pob sector, gan awgrymu bod fforddiadwyedd yn ystyriaeth sylfaenol ar gyfer gweithredu polisi'n llwyddiannus.

Y gallu i weithredu

Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio nad yw parodrwydd i weithredu bob amser yn gyfystyr â'r gallu i weithredu. Ar draws sectorau, roedd pobl yn nodi cyfyngiadau ymarferol a oedd yn cyfyngu ar eu dewisiadau, gan gynnwys trefniadau tenantiaeth, y graddau'r oedd dewisiadau eraill o drafnidiaeth ar gael, cyfyngiadau ariannol a chyfyngiadau polisi. Awgryma hyn fod galluogi gweithredu yn aml yn gofyn am newidiadau i systemau a strwythurau ehangach, yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar newid ymddygiad unigolion. Roedd cyfranogwyr felly'n pwysleisio y bydd angen newid systemig, law yn llaw â gweithredu gan unigolion, er mwn cyflawni lleihad ystyrlon mewn allyriadau.

Newid Ymddygiad yn Gynt

Canfu'r dadansoddiad bedair thema barhaus yn ymwneud â chyflymu newid ymddygiad wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut allwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf?".

Addysg ac Ymwybyddiaeth

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn nodi addysg a chodi ymwybyddiaeth fel mecanweithiau ar gyfer cyflymu newid. Roedd awgrymiadau'n cynnwys addysg hinsawdd mewn ysgolion, ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, mwy o rannu arferion da, a gwell mynediad at wybodaeth ynghylch cynlluniau cymorth a chyfleoedd. Teimlai cyfranogwyr y gallai cynyddu dealltwriaeth helpu i feithrin cefnogaeth i weithredu ar yr hinsawdd a galluogi penderfyniadau mwy gwybodus.

Gweithredu o dan Arweiniad y Gymuned

Daeth gweithredu cymunedol i'r amlwg fel thema allweddol ar draws sectorau. Roedd cyfranogwyr yn amlinellu gwerth mentrau lleol, prosiectau tyfu cymunedol, cynlluniau gwefru cymunedol, dysgu gan gymheiriaid a chynnwys cymunedau mewn penderfyniadau. Roedd barn helaeth fod, yn aml, newid yn fwyaf effeithiol pan fo wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth leol a pherchnogaeth gymunedol. Ar draws trafodaethau, cafodd mentrau dan arweiniad y gymuned fel mecanweithiau ar gyfer meithrin ymddiriedaeth, cynyddu cyfranogi ac arddangos gweithredu ymarferol.

Cefnogaeth Llywodraeth

Canfyddiad cyson ar draws sectorau oedd pwysigrwydd cefnogaeth llywodraeth wrth alluogi gweithredu ar yr hinsawdd. Roedd cyfranogwyr yn amlygu rôl grantiau, cymorthdaliadau, cymhellion a rhaglenni cyllid mewn lleihau rhwystrau rhag newid, law yn llaw â chymorth ymarferol i helpu pobl i chwilio'r cynlluniau a'r cyfleoedd sydd ar gael.

Sgiliau a Gweithlu

Cafodd yr angen am sgiliau newydd a chapasiti gweithluoedd ei nodi fel galluogydd newid pwysig, yn enwedig yn y sectorau tai ac amaethyddiaeth. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant, llwybrau gyrfa a datblygu gweithluoedd mewn meysydd fel ôl-osod, ffermio cynaliadwy a thechnolegau carbon-isel sy'n dod i'r amlwg. Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod ar weithwyr presennol angen cymorth i addasu i arferion a thechnolegau sy'n newid.

Gwireddu Potensial

Cafodd y themâu trawsbynciol canlynol eu nodi ar draws dau sector neu fwy pan ofynnwyd y cwestiwn ymchwil hwn iddynt: "Sut ydyn ni'n gwireddu'r potensial yng Nghymru, er enghraifft, i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni'n cartref, a'i gwneud yn haws i symud o gwmpas mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?"

Polisi a Rheoleiddio

Roedd cyfranogwyr yn nodi rôl bwysig polisi a rheoleiddio mewn creu'r amodau ar gyfer newid. Roedd galwadau am sicrwydd polisi hirdymor, cynlluniau cymorth hygyrch a datblygu polisïau sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol a phrofiad bywyd. Yn aml, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio bod polisïau yn fwy tebygol o fod yn effeithiol pan maent yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r rheini a effeithir ganddynt. Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio bod sicrwydd polisi yn bwysig er mwyn annog buddsoddi a chynnal hyder yn y pontio.

Ynni Glân a Seilwaith

Roedd llawer o gyfranogwyr yn gweld buddsoddiad mewn ynni glân a seilwaith ategol rhywbeth o bwysigrwydd canolog wrth ryddhau cyfleoedd datgarboneiddio. Roedd trafodaethau'n cynnwys trydaneiddio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, seilwaith gwefru cerbydau trydan, technolegau hydrogen a dulliau ynni cymunedol. Roedd cyfranogwyr yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod y systemau hyn yn hygyrch ac yn gallu cefnogi galw yn y dyfodol.

Swyddi Gwyrdd a Chyfleoedd Economaidd

Roedd cyfranogwyr yn aml yn cysylltu gweithredu ar yr hinsawdd â chyfle economaidd. Ar draws sectorau, roedd trafodaethau'n amlygu'r potensial am swyddi gwyrdd, datblygu gweithluoedd, arloesi a diwydiannau newydd i gefnogi datgarboneiddio a ffyniant economaidd.

Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch

Cafodd y themâu trawsbynciol canlynol eu nodi ar draws dau sector neu fwy wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: “Sut allwn ni leihau allyriadau ac ar yr un pryd wella’n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy’n newid?”

Atebion Seiliedig ar Natur

Mewn tai ac amaethyddiaeth yn enwedig, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio rôl dulliau seiliedig ar natur mewn lleihau allyriadau gan hefyd gryfhau gwydnwch rhag newid hinsawdd. Roedd awgrymiadau’n cynnwys gwella bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd, adfywio tir a rheoli tir mewn modd aml-swyddogaethol. Yn ehangach, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio’n aml y dylai lliniaru a addasu i newid hinsawdd gael eu hystyried gyda’i gilydd yn hytrach na fel heriau ar wahân.

Risgiau a Chanlyniadau i’w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg

Cafodd y themâu trawsbynciol canlynol eu nodi ar draws dau sector neu fwy wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: “Pa risgiau neu canlyniadau mae angen inni weithio gyda’n gilydd i’w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?”

Mynediad at Wybodaeth a Gwasanaethau

Roedd cyfranogwyr yn mynegi pryderon y galllai mynediad anghyfartal at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth greu rhwystrau rhag cymryd rhan yn y pontio. Roedd hyn yn cynnwys allgáu digidol, bylchau mewn ymwybyddiaeth a heriau wrth archwilio cynlluniau cymorth. Roedd sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac ar gael yn rhwydd yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig wrth gyflawni pontio teg.

Llunio Polisïau a Gwneud Penderfyniadau Cynhwysol

Canfyddiad cyson ar draws sectorau oedd pwysigrwydd cynllunio polisïau ac ymyriadau sy’n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau amrywiol gwahanol gymunedau. Roedd cyfranogwyr yn codi pryderon y gall cynlluniau sydd wedi eu llunio’n wael allgáu rhai grwpiau yn anfwriadol, creu rhwystrau ychwanegol rhag cymryd rhan, neu fethu i gyfrif ar gyfer cyd-destunau lleol. Ar draws sectorau, roedd galwadau am i bolisïau gael eu datblygu gyda’r rheini y maent yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod cymorth, cymhellion a rheoliadau yn hygyrch, teg, ac ymarferol i’w gweithredu. Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio gwerth cydgynhyrchu, ymgynghori ystyrlon a phrosesau penderfynu cynhwysol wrth helpu i osgoi canlyniadau anfwriadol a meithrin cefnogaeth gyhoeddus.

Amddiffyn Grwpiau Ymylol a Bregus

Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio’n gyson na ddylai gweithredu ar yr hinsawdd gynyddu anghydraddoldeb presennol. Roedd trafodaethau’n pwysleisio’r angen i ystyried profiadau grwpiau a all wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys pobl ar incymau is, pobl anabl, pobl hŷn ac iau, cymunedau lleiafrifoedd ethnig a’r rheini sy’n profi allgáu digidol. Y farn oedd bod sicrhau bod buddion a chyfleoedd y pontio yn cael eu rhannu’n deg yn un o egwyddorion craidd pontio teg.

Casgliad

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod llawer o'r materion a godwyd gan gyfranogwyr yn ymestyn ar draws sectorau polisi unigol. Yn hytrach na gweld tai, trafnidiaeth, ac amaethyddiaeth fel meysydd ar wahân, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd polisi cydgysylltiedig, buddsoddiad hirdymor, gwneud penderfyniadau cynhwysol, a chymorth hygyrch. Mae'r themâu trawsbynciol hyn yn gosod cyd-destun pwysig ar gyfer deall y canfyddiadau mwy manwl penodol i sector a gyflwynir yn y penodau canlynol.

4. Tai

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â thai, gan gyfuno tystiolaeth ar draws pob gweithgaredd ymgynghori. Mae canfyddiadau wedi eu trefnu o amgylch y pum cwestiwn ymchwil a wnaeth arwain y rhaglen ymgynghori, gan dynnu ynghyd themâu cyffredin, meysydd o gytundeb a safbwyntiau cyferbyniol lle daeth y rhain i'r amlwg.

Rhwystrau rhag Cynnydd

Canfuwyd y themâu hyn wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa rwystrau sy'n sefyll yn ein ffordd?" o safbwynt y sector tai. Caiff dulliau posibl o fynd i'r afael â'r rhestrau hyn eu harchwilio mewn adrannau ymhellach ymlaen ar newid ymddygiad yn gynt a gwireddu potensial.

Allgáu Ariannol a Digidol

Roedd siaradwyr yng nghynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru a chyfranogwyr ehangach yn nodi cost fel rhwystr mawr rhag datgarboneiddio a gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni. Roedd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd (dros 20) yn pwysleisio bod costau uchel ymlaen llaw gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn rhwystr perthnasol, gyda phwysau parhaus costau byw a chyfyngiadau ariannol a wynebir gan unigolion a sefydliadau yn cyfyngu ar y gallu neu'r ysfa i fuddsoddi mewn mesurau ôl-osod. Roedd cyfranogwyr yn nodi hefyd fod rhai cartrefi'n gofyn am atgyweiriadau strwythurol sylweddol cyn y gellir gweithredu mesurau datgarboneiddio, tra bod costau hirdymor, ansicrwydd tai, a phryderon am gostau cudd sy'n gysylltiedig ag ôl-osod yn cael eu gweld fel heriau ychwanegol. Roedd y digwyddiad Lleiafrifcedd Ethnig yn yr un modd yn cyfeirio at rwystr ariannol mynediad anghyfartal at welliannau gwyrdd i gartrefi. Ar draws ffynonellau tystiolaeth, daeth fforddiadwyedd i'r amlwg fel un o'r cyfyngiadau mwyaf sylweddol ar ddatgarboneiddio tai, sy'n dylanwadu ar barodrwydd a gallu teuluoedd i fuddsoddi mewn gwelliannau.

Dealltwriaeth Cyfyngedig a Gwybodaeth Anodd ei Gyrchu

Roedd cyfranogwyr amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn amlygu ymwybyddiaeth isel o'r angen am fesurau datgarboneiddio, yr opsiynau sydd ar gael, a'r cymorth y gellir ei gyrchu. Roedd llawer o gyfranogwyr yn disgrifio'r daith ôl-osod fel un anodd, yn enwedig o ran deall technolegau sydd ar gael, cymhwysedd am grantiau, a'r camau ymarferol sydd eu hangen i wneud gwelliannau i'w cartrefi. Roedd pryderon hefyd ynghylch diffyg gwybodaeth glir a hygyrch ar y broses ddatgarboneiddio, ei heffeithiau, a llywodraethiant y sector.

Diffyg Ymddiriedaeth

Mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa, roedd cyfranogwyr yn nodi diffyg ymddiriedaeth fel rhwystr allweddol rhag datgarboneiddio. Codwyd pryderon ynghylch gosodiadau o ansawdd gwael, darparwyr sy'n camfanteisio, ac effeithiolrwydd rhai o gynlluniau'r llywodraeth. Roedd pryderon hefyd am ddulliau a yrrir gan elw (cafodd

cynllun ECO4 ei nodi'n aml fel enghraifft o hyn) yn peri'r problemau hyn. Roedd cyfranogwyr yn amlygu angen am fwy o reoleiddio, prosesau sicrhau ansawdd cryfach, atebolrwydd cliriach i osodwyr, a mwy o dystiolaeth o effeithiau trwy astudiaethau achos a phrofiadau bywyd. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y bydd gwella hyder mewn gweithredu ôl-osod yn gofyn am amddiffyniadau cryf i ddefnyddwyr a mwy o dystiolaeth o ganlyniadau llwyddiannus.

Cyfyngiadau Deiliadaeth

Roedd adborth o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa, yn ogystal â chan gyfranogwyr cynhadledd Wythnos Hinsawdd Cymru a'r digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig, yn amlygu y gall pobl sy'n byw mewn tai rhent neu dai cymdeithasol wynebu rhwystrau ychwanegol rhag datgarboneiddio, gan eu bod yn aml yn methu ag awdurdodi gwelliannau i'w cartrefi. Roedd atebion a awgrymwyd yn cynnwys mwy o gymorth i denantiaid trwy ymgynghorwyr a grantiau tai, a chydweithio cryfach rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid, a thenantiaid er mwyn galluogi ac annog gwelliannau.

Llywodraethu

Ar draws amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig a gweithdy creu gweledigaeth CAST, roedd cyfranogwyr yn nodi trefniadau polisi, cynllunio a llywodraethu fel rhwystrau sylweddol rhag cynnydd. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar gymhlethdod, biwrocratiaeth a diffyg cysondeb rhwng sefydliadau, gyda blaenoriaethau a fframweithiau anghyson yn gwneud gweithredu cydgysylltiedig yn fwy anodd. Roedd cyfranogwyr o un digwyddiadau'r Gronfa yn codi pryderon hefyd am ansawdd safonau tai a'r graddau y cânt eu gorfodi, gan awgrymu nad yw'r rheoliadau presennol bob amser yn ddigonol i orfodi newid. Adlewyrchwyd y pryderon hyn yn y galwadau am ddulliau rheoleiddio cliriach, mwy cyson a mwy uchelgeisiol i gefnogi datgarboneiddio a chyflymu gweithredu ar draws y sector tai.

Gweithredu

Cafodd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa drafodaethau ar faterion yn ymwneud â gweithredu cartrefi gwyrdd yn ymarferol, gan gynnwys yr anhawster o wella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai hŷn presennol ac adeiladau rhestredig. Yn y cyfamser, roedd un arall o ddigwyddiadau'r Gronfa yn nodi bod tai newydd yn cael eu codi'n rhy gyflym er mwyn elw cyflym heb roi ystyriaeth i effeithlonrwydd. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod yr heriau ymarferol o ddatgarboneiddio stoc tai presennol Cymru yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol fathau o dai. Cafodd adeiladau hŷn, adeiladau rhestredig, a datblygiadau newydd a godwyd yn gyflym eu nodi fel rhai sy'n gofyn am wahanol ymatebion polisi ac atebion technegol.

Newid Ymddygiad yn Gynt

Cafodd y themâu canlynol eu canfod yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut allwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf?" o safbwynt y sector tai.

Gweithgarwch Cymunedol

Roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn rhoi pwyslais cryf ar ddulliau cymunedol o leihau allyriadau yn y sector tai. Roedd hyn yn cynnwys mwy o weithgarwch cymunedol mewn penderfyniadau a chynllunio, cyfleoedd am ddysgu cymunedol, a datblygu modelau perchnogaeth gymunedol. Roedd y cyfranogwyr hyn yn amlygu gwerth cydweithio rhwng trigolion ac yn awgrymu y dylai dulliau cydweithredol gael eu gwneud yn haws. Roedd enghreifftiau yn cynnwys archwilio systemau gwresogi ar y cyd ac atebion eraill ar raddfa cymuned. Roedd cyfranogwyr o ddau o ddigwyddiadau'r Gronfa hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio trwy sefydliadau cymunedol yr ymddiriedir ynddynt wrth weithredu mentrau, a darparu gwybodaeth a chymorth.

Mewn amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa, roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys gweithdai cymunedol, sesiynau galw heibio a chanolfannau cynghori lleol fel ffyrdd o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg trigolion.

Rôl Darparwyr Tai

Roedd cyfranogwyr amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn teimlo y dylai landlordiaid a chymdeithasau tai gael cyfrifoldeb i gefnogi trigolion i bontio at gartrefi gwyrddach. Roedd galwadau am ddisgwyliadau cryfach a chymhellion i landlordiaid wella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau. Roeddent yn nodi mai dylanwad cyfyngedig yn aml sydd gan denantiaid dros welliannau i'w cartrefi a'u bod felly'n dibynnu ar landlordiaid i wneud newidiadau. Roedd cyfranogwyr felly o'r farn fod darparwyr tai yn bartneriaid cyflawni allweddol wrth alluogi datgarboneiddio aelwydydd.

Law yn llaw â rôl sefydliadau, roedd cyfranogwyr o rai o ddigwyddiadau'r Gronfa yn pwysleisio bod gan unigolion hefyd ran i'w chwarae mewn lleihau allyriadau a mabwysiadu ymddygiad carbon-is.

Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy

Roedd cyfranogwyr o un o ddigwyddiadau'r Gronfa yn nodi cwmnïau cyfleustodau fel gweithredwr posibl arall, gan awgrymu y gallent annog ymddygiad gwyrddach trwy gynlluniau gwobrwyo sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Mewn dau ddigwyddiad, dywedodd cyfranogwyr hefyd y dylai trydan a gynhyrchir trwy baneli solar a osodir ar dai cyngor ddarparu budd uniongyrchol i'r tenantiaid sy'n byw yn y cartrefi hynny.

Codi Ymwybyddiaeth

Mewn areithiau yng nghynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru ac adborth cyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, nodwyd codi ymwybyddiaeth fel elfen bwysig o gefnogi newid ymddygiad a chynyddu cyfranogi mewn mentrau datgarboneiddio. Roedd awydd am fwy o ymwybyddiaeth o gynlluniau cymorth presennol, gan gynnwys gwybodaeth eglurach ynghylch cymhwysedd, cyllid sydd ar gael, a phrosesau ymgeisio.

Yn yr un modd, roedd un o siaradwyr y gynhadledd rithwir a chyfranogwyr un o ddigwyddiadau'r Gronfa yn awgrymu datblygu "siop un-stop" ganolog lle gallai trigolion gael gafael ar wybodaeth, cyngo a chanllawiau ar dechnolegau a chynlluniau cymorth sydd ar gael a chamau gweithredu y gallent eu cymryd.

Trafodwyd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio rôl bosibl offerynnau digidol, sefydliadau yr ymddiriedir ynddynt, cymorth wyneb yn wyneb, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau traddodiadol wrth gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd.

Teimlai cyfranogwyr o ddau o ddigwyddiadau'r Gronfa y dylid targedu negeseuon ac apelio at amrywiaeth o gymhellion, gan gynnwys buddion ariannol yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, ac na ddylent ganolbwyntio ar iaith ddadleuol na beirniadol.

Roedd cyfranogwyr o un o ddigwyddiadau'r Gronfa yn pwysleisio'r angen i wella llythrennedd amgylcheddol mewn ysgolion, tra bod mynychwyr un o ddigwyddiadau eraill y Gronfa yn awgrymu y dylai hyn barhau y tu hwnt i leoliadau addysg ffurfiol mewn cymunedau.

Cymorth

Caiff cymorth hygyrch a chynhwysol ei weld fel galluogwr allweddol datgarboneiddio ar draws y sector. Roedd mwy nag un o bob pump o gyfranogwyr yr arolwg (22%) yn nodi cymorth llywodraeth fel un o'r cyfleoedd mwyaf i datgarboneiddio'n gynt (ffigur 4).

Mewn amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, roedd cyfranogwyr yn dadlau bod cynlluniau cymorth presennol wedi eu targedu'n rhy gul ac y dylid eu hehangu y tu hwnt i deuluoedd incwm-isel, gyda rhai yn eirioli dull graddfa lithr sy'n adlewyrchu amrywiol lefelau o angen.

Roedd cyfranogwyr o amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa yn pwysleisio hefyd fod gwella mynediad at gymorth cyn bwysiced â'r cyllid ei hun, gan amlygu'r angen am brosesau ymgeisio symlach, canllawiau cliriach, a chymorth i ddeall y cynlluniau sydd ar gael. Cafodd mwy o hyblygrwydd o fewn rhaglenni cymorth hefyd ei nodi mewn un o ddigwyddiadau'r Gronfa fel rhywbeth pwysig, yn enwedig er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ôl-osod adeiladau hanesyddol a stoc tai hŷn.

Mewn dau o ddigwyddiadau'r Gronfa, roedd cyfranogwyr yn mynegi ansicrwydd ynghylch y graddau y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol ac yn amau a fyddai'r cynlluniau presennol yn ddigonol i gyflawni newid ystyrlon.

Roedd cyfranogwyr nifer o ddigwyddiadau'r Gronfa yn nodi y dylai cymorth yn y dyfodol gael ei deilwra ar gyfer anghenion gwahanol grwpiau, gan gynnwys:

- Landlordiaid a pherchnogion tai – cymorthdaliadau a chymhellion i wneud tai yn fwy effeithlon ac uwchraddio adeiladau
- Rhentwyr – manteision uniongyrchol paneli solar i denantiaid, mynediad at gyllid fel i berchnogion tai

- Pobl hŷn a phobl ar incwm isel – helpu'r teuluoedd hyn i wneud y newidiadau angenrheidiol am ddim neu'n rhatach.


Gyda'i gilydd, awgryma'r canfyddiadau hyn y gallai mecanweithiau cymorth mwy hygyrch, cynhwysol ac addasadwy chwarae rhan sylweddol mewn galluogi mwy o bobl i weithredu mesurau datgarboneiddio.

Cyllid

Roedd cyfranogwyr o ddigwyddiadau'r Gronfa, cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd, a digwyddiadau Cerdyn Post o'r Dyfodol yn awgrymu y byddai angen amrywiaeth o fecanweithiau cyllido i gefnogi'r pontio at gartrefi gwyrddach a ffyrdd carbon-is o fyw. Roedd y rhain yn cynnwys grantiau, benthyciadau llog isel a modelau cyllid cymunedol. Roedd cymorth hefyd o un o ddigwyddiadau'r Gronfa am drefniadau cyllid sy'n galluogi dulliau cydweithredol, gan gynnwys seilwaith a rennir megis systemau gwresogi cymunedol.

Roedd cyfranogwyr o ddau o ddigwyddiadau'r Gronfa yn ailadrodd pwysigrwydd darparu cyllid a chymorth trwy sefydliadau cymunedol yr ymddiriedir ynddynt lle bo'n bosibl.

Ffigur 4: Beth yw'r cyfleoedd mwyaf i gyflymu datgarboneiddio dros y 5 mlynedd nesaf? – Tai



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ddata Arolwg Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru (n=88, aml-ddewis)

Gwireddu Potensial

Nodwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut ydyn ni'n gwireddu'r potensial yng Nghymru, er enghraifft, i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni'n cartref, a'i gwneud yn haws i symud o gwmpas mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?" o safbwynt y sector tai.

Rheoleiddio Addas i'r Diben

Roedd cyfranogwyr llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn amlygu rôl rheoleiddio a pholisi wrth gefnogi'r pontio at gartrefi gwyrddach. Roedd galwadau gan fynychwyr digwyddiadau'r Gronfa a'r Cerdyn Post o'r Dyfodol ar i dechnoleg megis paneli solar a phympiau gwres ddod yn nodwedd safonol o bob datblygiad tai newydd. Roedd cyfranogwyr yn awgrymu hefyd fod angen amddiffyniadau cryfach i denantiaid er mwyn sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dal yn gyfrifol am gyflwr a pherfformiad ynni eu heiddo.

Codwyd pryderon yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa am arferion y farchnad sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwyrdd, gyda chyfranogwyr yn awgrymu angen am fwy o reoleiddio. Ar wahân i hyn, roedd siaradwr yn nodi rheoliadau cynllunio, gan gynnwys y rheol gynllunio tair-metr, fel rhwystr posibl rhag gosod mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy ac yn awgrymu y gallai lleihau gofynion cynllunio a gweinyddol gefnogi cyflawni.

Ôl-osod ar Raddfa Fawr

Roedd cyfranogwyr o amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa a sesiwn gynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn pwysleisio pwysigrwydd dull hirdymor, strategol o ôl-osod ar raddfa fawr, gan gynnwys darparu grantiau digonol, cynllunio fesul ystad a rhaglenni sy'n cefnogi gweithiau ôl-osod mwy helaeth. Roedd cefnogaeth hefyd i fwy o gydweithio, er enghraifft rhwng darparwyr tai cyfagos, er mwyn galluogi gweithredu ar raddfa fwy. Mewn un digwyddiad cynhadledd rithwyr yr Wythnos Hinsawdd, roedd cyfranogwyr yn awgrymu y gallai fframweithiau caffael ar y cyd helpu i gydgysylltu gweithgarwch ôl-osod gan greu cyfleoedd i fusnesau lleol a chefnogi buddion economaidd lleol.

Sgiliau, Cyflogaeth a Buddion Cymunedol

Roedd adborth llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd ac un o gyfranogwyr cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn nodi'r pontio at gartrefi gwyrddach fel cyfle posibl i ddatblygu sgiliau a chreu swyddi ar draws ystod o sectorau a fyddai'n cyfrannu. Roedd y swyddogaethau a amlygwyd yn cynnwys gosodwyr, peirianwyr, ymgynghorwyr ynni, ac addysgwyr cymunedol. Codwyd yr angen i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau, gan gynnwys cyfleoedd i uwchsgilio'r gweithlu presennol a darparu hyfforddiant i weithwyr newydd ddatblygu sgiliau gwyrdd. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y data meintiol o'r arolwg (ffigur 4), a oedd yn rhoi'r sgôr uchaf i sgiliau fel y cyfle mwyaf i ddatgarboneiddio'r sector tai (23%).

Er bod siaradwr yng nghynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn nodi y gallai buddsoddi mewn tai gyfrannu at dwf economaidd leol pe byddai'n digwydd law yn llaw â dilyniant clir a pharhaus o fuddsoddi, roedd adborth dau o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn nodi cefnogaeth i fentergarwch lleol mewn gwasanaethau cynaliadwy fel budd posibl.

Yn ogystal â chyfleoedd economaidd, roedd amryw o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa yn amlygu'r potensial am fuddion cymunedol ehangach. Roedd enghreifftiau'n cynnwys prosiectau ynni cymunedol a buddsoddi mewn llecynnau gwyrdd, a oedd yn cael eu gweld fel cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol law yn llaw â gwelliannau i dai.

Cafodd cyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o'r pontio at gartrefi gwyrddach hefyd ei nodi yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa.

Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: Sut allwn ni leihau allyriadau ac ar yr un pryd wella'n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid?" o safbwynt y sector tai.

Roedd adborth o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd ac amryw o gyfranogwyr y Cerdyn Post o'r Dyfodol yn amlygu pwysigrwydd codi cartrefi gwyrddach ac addas ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod datblygiadau newydd yn rhoi blaenoriaeth i natur. Roedd mesurau a awgrymwyd yn cynnwys toeau gwyrdd, planhigion cartref, systemau ailgylchu dwr glaw, ac ailddefnyddio deunyddiau.

Roedd cefnogaeth hefyd gan cyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa a'r Cerdyn Post o'r Dyfodol i ehangu ynni adnewyddadwy law yn llaw â gwella dulliau o storio ynni a chynlluniau ynni cymunedol i gynyddu gwydnwch a hyblygrwydd ynni lleol.

Yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa, roedd buddsoddiad gan y llywodraeth yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig ar mwyn cefnogi mesurau addasu a gwydnwch mewn adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys systemau oeri ar gyfer ysgolion ac adeiladau cyhoeddus eraill.

Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa risgiau neu ganlyniadau mae angen inni weithio gyda'n gilydd i'w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?" o safbwynt y sector tai.

Anghydraddoldeb tai

Roedd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd â chyfranogwyr yn mynegi pryderon bod y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio'n disgyn mewn modd anghymesur ar aelwydydd sydd â'r lleiaf o adnoddau neu rym. Roedd cyfranogwyr yn codi pryderon hefyd am amodau tai gwael, gan gynnwys tamprwydd, llwydni, inswleiddio annigonol, gor-dwymo, a dwr glaw yn dod i mewn. Mewn dau o ddisgwyddiadau'r Gronfa, roedd y problemau hyn yn cael eu gweld fel pethau sy'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd negyddol ac at waethygu anghydraddoldeb iechyd, gydag un o siaradwyr cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn cyfeirio at dystiolaeth ar gostau tai o ansawdd gwael i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Allgáu o Wybodaeth

Mewn dau o ddigwyddiadau'r Gronfa, cafodd rhwystrau iaith eu nodi fel her, gyda chyfranogwyr yn nodi nad yw gwybodaeth bob amser ar gael mewn gwahanol ieithoedd ac y gall terminoleg dechnegol fod yn anodd ei deall. Mewn eraill, pwysleisiwyd bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio gwelliannau i'w tai a'u cartrefi.

Roedd pwysau ariannol, heriau hygyrchedd, a rhwystrau rhag gwybodaeth yn cael eu gweld fel ffactorau sy'n cynyddu'r risg o allgáu i rai grwpiau. Roedd dwy o drafodaethau'r Gronfa yn nodi y gall pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd wynebu heriau ychwanegol wrth gael at gynlluniau a gwybodaeth, tra bod amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa wedi cael adborth y gall teuluoedd ar incwm isel ei chael yn anodd fforddio gwelliannau i'w cartref oherwydd pwysau ariannol ehangach a chostau uchel ynni.

Yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa, teimlai cyfranogwyr o gymunedau sy'n cael eu hymyleiddio nad yw eu barn yn cael ei glywed yn ddigonol nac yn cael ei adlewyrchu mewn penderfyniadau. Roedd grwpiau a ganfuwyd (mewn llawer o wahanol ddigwyddiadau'r Gronfa) fel rhai sydd mewn risg mwy o allgáu yn cynnwys cymunedau gwledig, pobl hŷn, rhentwyr, a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

5. Amaethyddiaeth a Defnydd Tir

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyfuniad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a defnydd tir a gasglwyd drwy'r rhaglen ymgynghori. Trefnir y canfyddiadau o amgylch y pum cwestiwn ymchwil a oedd yn sail i'r ymgynghori ac maent yn tynnu ynghyd dystiolaeth ar draws y gwahanol weithgareddau ymgynghori. Mae'r bennod yn nodi'r themâu allweddol a godwyd gan gyfranogwyr ynghylch y rhwystrau rhag datgarboneiddio amaethyddol, cyfleoedd i gyflymu newid, ac ystyriaethau ar gyfer sicrhau pontio teg a chyfiawn.

Rhwystrau rhag Cynnydd

Canfuwyd y themâu hyn wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa rwystrau sy'n sefyll yn ein ffordd?" o safbwynt y sector amaethyddiaeth a defnydd tir. Caiff dulliau posibl o fynd i'r afael â'r rhestrau hyn eu harchwilio mewn adrannau ymhellach ymlaen ar newid ymddygiad yn gynt a gwireddu potensial.

Cyfyngiadau Capasiti a Chymorth

Roedd cyfranogwyr llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn nodi mynediad at gyllid, addysg a chymorth fel rhwystrau sylweddol rhag newid. Y farn oedd bod adnoddau cyfyngedig yn cyfyngu gallu ffermwyr i fabwysiadu dulliau newydd, buddsoddi mewn arloesi ac ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg. Roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa hefyd yn amlygu bylchau mewn seilwaith a'r rheoleiddio sydd ei angen er mwyn cefnogi arloesi ehangach yn y sector. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod llawer o gyfranogwyr yn gweld cyfyngiadau capasiti fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar allu'r sector i ymateb i newid hinsawdd a newid economaidd.

Heriau Polisi a Llywodraethu

Roedd cyfranogwyr o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa ac un digwyddiad cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn mynegi pryder ynghylch polisi amaethyddol a phrosesau penderfynu. Mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa, teimlai cyfranogwyr nad yw cynlluniau polisi'n adlewyrchu anghenion pob ffermwr yn ddigonol, gan gyfeirio at bryderon ynghylch dyluniad cynlluniau a chael eu hallgáu o fentrau megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn ehangach, roedd cyfranogwyr o amryw o ddigwyddiadau'r gronfa a digwyddiad cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn tynnu sylw at ddifyg eglurder ynghylch strwythurau a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau, a oedd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyfrannu at ansicrwydd a diffyg ymddiriedaeth. Yn ogystal, roedd ansicrwydd ynghylch cyllid cynlluniau yn cyfrannu at bryder ar draws llawer o grwpiau'r Gronfa. Adlewyrchwyd y pryderon hyn yn arolwg Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru, lle'r oedd 22% o'r ymatebwyr yn nodi newidiadau i gymorth llywodraeth fel un o'r cyfleoedd mwyaf i ddatgarboneiddio'r sector (ffigur 5).

Rhwystrau Marchnadoedd ac Economaidd

Roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd a'r ymgynghoriad Lleiafrifoedd Ethnig yn nodi rhwystrau strwythurol o fewn marchnadoedd tir a marchnadoedd bwyd. Codwyd pryderon fod marchnadoedd tir yn ffafrio prynwyr masnachol, gan ei gwneud yn fwy anodd i ffermwyr o'r newydd a ffermwyr lleol sy'n dymuno ehangu. Nodwyd yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa fod y diffyg seilwaith addas yn rhwystro datblygiad systemau bwyd lleol.

Roedd llawer o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa ac un o weithdai creu gweledigaeth CAST yn amlygu heriau hefyd wrth gael gafael ar gynnyrch lleol a bwyd iach, gan nodi y gall fforddiadwyedd a chyfleustra cadwyni archfarchnadoedd mawr ei gwneud yn anodd i systemau bwyd lleol gystadlu.

Sgiliau, Gwybodaeth a Chyfathrebu

Roedd cyfranogwyr llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, dwy gynhadledd rithiol yr Wythnos Hinsawdd a gweithdai CAST yn tynnu sylw at ddirywiad mewn sgiliau a gwybodaeth o fewn y sector amaethyddol, gan gynnwys bylchau canfyddedig mewn gwasanaethau ymgynghorol a chymorth addysgol. Trafodwyd ar draws y grwpiau fod sgiliau traddodiadol rheoli tir a llythrennedd amgylcheddol yn cael eu colli, drwy nad ydynt yn cael eu trosglwyddo gan genedlaethau hyn i genedlaethau iau oherwydd gweithlu sy'n heneiddio. Cafodd diffyg ymwybyddiaeth, neu amheuon ynghylch gweithredu ar yr hinsawdd a pholisïau amgylcheddol eu nodi hefyd fel rhwystr mewn amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa. Law yn llaw â phrinder sgiliau, roedd cyfranogwyr yn amlygu heriau o ran cyfathrebu. Roedd amryw o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa yn awgrymu y gall cyfathrebu aneglur gyfrannu at ddryswch, diffyg ymddiriedaeth ac, mewn rhai achosion, camwybodaeth, gan ei gwneud yn fwy anodd ennill cefnogaeth i newid.

Gwrthsafiad Diwylliannol rhag Newid

Roedd amryw o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn nodi y gall traddodiadau sefydledig ac arferion diwylliannol mewn amaethyddiaeth weithredu fel rhwystr weithiau rhag mabwysiadu technolegau a dulliau newydd. Er bod y traddodiadau hyn yn parhau i fod yn rhan bwysig o gymunedau ffermio, teimlai rhai cyfranogwyr y gallant arafu'r graddau y mabwysiedir arloesi ac arferion amgen a allai fod yn fwy cynaliadwy.

Effeithiau ar Hinsawdd a Phwysau Amgylcheddol

Roedd cyfranogwyr amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Newid Hinsawdd yn amlygu effaith gynyddol digwyddiadau tywydd garw, gan gynnwys cyfnodau o law trwm a gwres, ar gynhyrchion ffermio. Dywedwyd bod y pwysau hyn yn creu heriau ychwanegol i'r sector gan gynyddu'r brys am fesurau addasu a gwydnwch.

Newid Ymddygiad yn Gynt

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut allwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf?" o safbwynt y sector Amaethyddiaeth a Defnydd Tir.

Addysg, Sgiliau ac Ymwybyddiaeth

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn codi addysg a chodi ymwybyddiaeth fel galluogwyr allweddol newid hirdymor yn y sector amaethyddiaeth a defnydd tir. Mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd a'r digwyddiad i Leiafrifoedd Ethnig, roedd cefnogaeth i gyflwyno dysgu amaethyddol ac ymwybyddiaeth o systemau bwyd i'r cwricwlwm ysgol i gryfhau dealltwriaeth o le y daw bwyd, rôl ffermio mewn stiwardiaeth amgylcheddol, a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y sector. Roedd cyfranogwyr yn amlygu'r angen hefyd i greu llwybrau cliriach i mewn i yrfaoedd amaethyddol, helpu i ddenu cenhedlaeth newydd o weithwyr a mynd i'r afael â phrinder sgiliau. Roedd y digwyddiad i Leiafrifoedd Ethnig yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd cyd-drafod â grwpiau lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn ffermio.

Cryfhau Cysylltiadau Cymunedol â Bwyd a Thyfu

Roedd cyfranogwyr o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn gweld mwy o weithgarwch mewn tyfu bwyd fel llwybr pwysig at newid ymddygiad, cynyddu gwydnwch, a chryfhau'r berthynas â bwyd, tir a natur. Roedd cymorth ar draws digwyddiadau'r Gronfa, gweithdai CAST a'r digwyddiad i Leiafrifoedd Ethnig i ehangu cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau tyfu trwy fentrau megis gerddi cymunedol, cwmnïau cydweithredol, offer a chyfarpar cymunedol, a dulliau arloesol megis lleoedd tyfu fertigol ac ar ben toeau. Y teimlad oedd y byddai hyn yn meithrin cyfrifoldeb a chyfnewid gwybodaeth ond byddai angen iddo gael ei gefnogi gan newidiadau mewn polisi megis gwella mynediad cyhoeddus i dir.


Adeiladu Economïau Bwyd Lleol

Roedd newid ymddygiad hefyd yn gysylltiedig â chryfhau systemau bwyd lleol a chynyddu cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr. Roedd llawer o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig, a mynychwyr Cerdyn Post o'r Dyfodol a chynhadledd rithiol Wythnos Hinsawdd Cymru yn amlygu potensial marchnadoedd cymunedol a chadwyni cyflenwi lleol i annog pobl i brynu bwyd gan ffermwyr yn eu hardal, gan gefnogi bywoliaethau lleol wrth leihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi hirach. Roedd gwella'r gallu i gael gafael ar gynnyrch a dyfir yn lleol yn cael ei weld fel cyfle i hyrwyddo dietau iachach, cynyddu gwerthfawrogiad o fwyd tymhorol, a chreu cymelliannau economaidd cryfach i arferion cynaliadwy rheoli tir. Roedd cyfranogwyr o ddau o ddigwyddiadau'r Gronfa yn awgrymu y gallai cymorthdaliadau i fwydydd iachach gefnogi newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr, gyda mynychwyr Bluestone hefyd yn awgrymu symudiad at gynnyrch cig mwy lleol.

Penderfyniadau o dan Arweiniad y Gymuned ar Ddefnydd Tir

Roedd cefnogaeth ar draws amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa am fwy o lais i gymunedau mewn penderfyniadau ynghylch defnydd tir a rheoli tir. Roedd cyfranogwyr yn amlygu gwerth trefnu, cydweithio a phrosesau penderfynu cymunedol ar y cyd sy'n galluogi pobl leol i ddylanwadu ar sut y caiff tir ei ddefnyddio a'i reoli o fewn eu hardal. Roedd mwy o gyfranogi yn cael ei weld fel ffordd o annog cyd-berchnogaeth ardaloedd lleol a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol.

Ffigur 5: Beth yw'r cyfleoedd mwyaf i gyflymu datgarboneiddio dros y 5 mlynedd nesaf? – Amaethyddiaeth a Defnydd Tir



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ddata Arolwg Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru (n=23, aml-ddewis)

Gwireddu Potensial

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut ydyn ni'n gwireddu'r potensial yng Nghymru, er enghraifft, i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni'n cartref, a'i gwneud yn haws i symud o gwmpas mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?" o safbwynt y sector amaethyddiaeth a defnydd tir.

Creu'r Amodau ar gyfer Newid

Roedd cyfranogwyr yn nodi polisi, cyllid a mecanweithiau cymorth fel ffactorau allweddol wrth ryddhau potensial y sector amaethyddiaeth a defnydd tir. Mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, roedd cyllid ychwanegol yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig er mwyn galluogi ffermwyr i fabwysiadu dulliau newydd ac ennyn cefnogaeth gymunedol i gadwyni cyflenwadau bwys allyriadau is. Roedd mynychwyr cynhadledd rithiol Wythnos Hinsawdd Cymru yn awgrymu cyfuniad o gyllid preifat a chyhoeddus, tra bod cyfranogwyr ar draws digwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn pwyso am grantiau hygyrch sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ffermwyr newydd, a cefnogi gwelliannau i natur a bywoliaethau ar yr un pryd.

Roedd meysydd a awgrymwyd ar gyfer cymorth polisi yn cynnwys hyrwyddo garddwriaeth, blaenoriaethu cynhyrchu bwyd, creu cynefinoedd megis morfeydd heli a mawndiroedd, a rheoli tir mewn modd aml-ddefnydd (ee llunio systemau defnydd tir sy'n cefnogi nodau lluosog megis ynni adnewyddadwy, ffermio a natur).

Roedd cyfranogwyr o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa yn mynnu bod polisïau yn fwy tebygol o fod yn effeithiol pan gânt eu datblygu gyda mewnbwn gan ffermwyr a'u cyfleu'n glir i gymunedau amaethyddol. Roedd cydweithio a chydgynhyrchu hefyd yn themâu cryf yn nigwyddiad cynhadledd rithiol Wythnos Hinsawdd Cymru, gyda siaradwyr a mynychwyr yn pwysleisio pwysigrwydd polisïau sy'n ymarferol ac sy'n aros yn fyw ac esblygu. Roedd galwadau hefyd am gynlluniau polisi hygyrch, cyson a chymelliannol, law yn llaw â dulliau teg a chadarnhaol o weithredu a gorfodi.

Ymchwil, Hyfforddiant a Rhannu Gwybodaeth

Roedd cyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd a chynhadledd Wythnos Hinsawdd Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd ymchwil, addysg a rhannu gwybodaeth wrth gefnogi gwell cynhyrchiant a newid yn y sector. Roedd dulliau a awgrymwyd yn cynnwys cynlluniau hyffordd sy'n canolbwyntio ar dechnolegau newydd a sgiliau cadarnhaol at natur, cyfleoedd dysgu gan gymheiriaid, ffermydd arddangos a grwpiau ffermwyr a gefnogir gan hwyluswyr. Roedd cyfranogwyr yn amlygu'r angen hefyd am ymchwil parhaus i farchnadoedd a thechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg, gan nodi y dylai unrhyw dechnolegau newydd fod yn ymarferol, hygyrch ac addas i ddefnyddwyr.

Er enghraifft, roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa yn trafod potensial adfer marchnadoedd traddodiadol megis amaeth-goedwigaeth, neu groen oen a gwlân ar gyfer compost di-fawn ac inswleiddio, tra bod eraill yn trafod archwilio marchnadoedd newydd megis hemp a hydroponeg. Fodd bynnag, dim ond 9% (n=23) ymatebwyr cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd i'r arolwg a ddewisodd arallgyfeirio ac archwilio marchnadoedd newydd fel un o'r cyfleoedd mwyaf am ddatgarboneiddio, gan ddangos nad yw hwn yn opsiwn poblogaidd gan bawb.

Yn y cyfamser, roedd enghreifftiau o dechnoleg bosibl a drafodwyd mewn digwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd rithwyr yr Wythnos Hinsawdd yn cynnwys monitro prif o loerennau, offer dargan wedi eu galluogi gan AI a thechnoleg dronau. Roedd rhai o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa yn trafod sut y gallai hyn hefyd gefnogi ffermwyr wrth addasu i newid hinsawdd. Unwaith eto, dim ond 9% (n=23) o ymatebion arolwg cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd a ddewisodd Technoleg ac AI fel un o'r cyfleoedd mwyaf am ddatgarboneiddio, felly efallai nad yw hwn yn ateb addas i bawb.

Cafodd enghreifftiau fel Maes Glo Neils, Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar a Tir Gofal eu hamlygu fel rhai sy'n dangos arweiniad effeithiol o fewn y sector.

Annog Mabwysiadu Arferion Cynaliadwy

Roedd trafodaethau'n amlygu amrywiaeth o gamau gweithredu y gellid eu cymryd ar lefel fferm i gefnogi dulliau mwy cynaliadwy a chynhyrchiol o reoli tir. Roedd llawer o gyfranogwyr ddigwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd yr Wythnos Hinsawdd yn nodi'r arferion gorau mewn dulliau o reoli bioamrywiaeth a phlannu coed, gan gynnwys defnyddio tir ymylol a'r dull 'y goeden iawn yn y lle iawn'. Roedd cefnogaeth hefyd i newidiadau o fewn meysydd o'r diwydiant megis cynhyrchu da byw, prosesu a rheoli pridd, gyda chyfranogwyr yn trafod cyfleoedd i fabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy a llai dwys. Cefnogir hyn gan y data o'r arolwg, sy'n dangos y gefnogaeth fwyaf i ddulliau ffermio carbon isel o ddatgarboneiddio'r sector (26%, n=23)).

Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: Sut allwn ni leihau allyriadau ac ar yr un pryd wella'n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid?" o safbwynt y sector amaethyddiaeth a defnydd tir.

Amddiffyn Bioamrywiaeth ac Adfer Tir

Roedd cyfranogwyr ar draws digwyddiadau'r Gronfa Newid Hinsawdd, cynhadledd Wythnos Hinsawdd Cymru a Cherdyn Post o'r Dyfodol yn nodi amddiffyn bioamrywiaeth ac adfer tir fel cyfleoedd pwysig i leihau allyriadau gan gynyddu gwydnwch ar gyfer newid hinsawdd. Roedd trafodaethau'n amlygu'r angen i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth gan sicrhau bod buddion ecolegol yn cael eu cynnal dros yr hirdymor. Roedd cyfranogwyr yn tynnu sylw hefyd at rôl adfer tir a phlannu coed wrth gefnogi addasu a helpu tirweddau i ymateb i amodau hinsawdd sy'n newid, megis llifogydd neu wres trefol.

Rheoli Tir ar gyfer Gwydnwch Hinsawdd fel Llwybr at Leihau Allyriadau

Roedd cyfranogwyr ar draws digwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd yr Wythnos Hinsawdd yn amlygu'r berthynas agos rhwng addasu a lleihau allyriadau o fewn y sector amaethyddiaeth a defnydd tir. Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar gamau gweithredu fel rhaglenni iechyd anifeiliaid, amaeth-goedwigaeth, defnyddio llai o wrtaith a gwelliannau i ffrwythlondeb pridd, a all gefnogi gwydnwch hinsawdd ac allyriadau is. Roedd siaradwr yng nghynhadledd rithiol yr Wythnos Hinsawdd yn nodi bod addasu'n aml yn teimlo'n fwy uniongyrchol ac ymarferol i ffermwyr, gan ei wneud yn bwynt mynediad effeithiol ar gyfer gweithredu ehangach ar yr hinsawdd. Roedd trafodaethau yn un o ddigwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd yr Wythnos Hinsawdd yn cydnabod bod tir yn allweddol i ymateb Cymru i'r hinsawdd, gyda chyfleoedd i gefnogi storio carbon, adfer natur a gwydnwch law yn llaw â chynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy.

Byrhau Cadwyni Cyflenwi gyda Marchnadoedd Lleol

Roedd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa'n awgrymu y gallai cryhau systemau bwyd lleol helpu i leihau dibyniaeth ar fwydydd a fewnforir tra'n cynyddu gwydnwch rhag tarfiadau cysylltiedig â'r hinsawdd. Ar draws amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa, roedd cynhyrchu a dosbarthu lleol yn cael eu gweld fel elfennau pwysig system fwyd mwy cydnerth, ac

roedd cyfranogwyr yn amlygu pwysigrwydd systemau bwyd lleol wrth gysylltu pobl â'u diwylliant a'u cymuned.

Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa risgiau neu ganlyniadau mae angen inni weithio gyda'n gilydd i'w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?" o safbwynt y sector amaethyddiaeth a defnydd tir.

Allgáu Ffermwyr a Chymunedau Gwledig

Roedd llawer o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn mynegi pryder fod ffermwyr a chymunedau gwledig naill ai'n cael, neu y gallent gael, eu beio'n annheg neu eu "hallgáu" mewn trafodaethau ynghylch newid hinsawdd ac effeithiau amgylcheddol, a bod y cyhoedd yn brin o ymwybyddiaeth ynghylch y buddion mae ffermwyr yn eu darparu i Gymru. Felly, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cydnabod ffermwyr fel partneriaid mewn gweithredu ar yr hinsawdd, yn hytrach na'u gosod fel pe bai nhw yw gwraidd y broblem.

Canlyniadau Polisi a Defnydd-Tir Anfwriadol

Roedd barn mewn amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa y dylai penderfyniadau polisi a chynllunio ystyried amgylchiadau lleol ac effeithiau hirdymor ar ddefnydd tir, cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig. Er enghraifft, roedd cyfranogwyr o ddigwyddiad y Gronfa, Cerdyn Post o'r Dyfodol a chynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn amlygu pryderon am ganlyniadau hirdymor penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy, cynllunio a newid amgylcheddol. Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys ffermwyr a chymunedau amaethyddol mewn penderfyniadau er mwyn helpu i osgoi canlyniadau anfwriadol ac adeiladu cefnogaeth i newid.

Tanseilio Dyfodol y Sector

Roedd cyfranogwyr yn nodi diffyg cyllid a chymorth ariannol fel risg posibl i hyfywedd hirdymor y sector amaethyddol. Roedd pryderon y gallai cyllid, cymhellion neu gymorthdaliadau annigonol leihau diddordeb mewn ffermio fel gyrfa a'i gwneud yn fwy anodd i'r sector ddenu a chadw pobl. Roedd cyfranogwyr o'r farn fod buddsoddi a chymorth parhaus yn bwysig er mwyn sicrhau bod y pontio yn deg a chynaliadwy.

Roedd cyfranogwyr mewn amryw o grwpiau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn codi pryderon hefyd ynghylch y risg o gipio tir gan gorfforaethau, gan ffafrio marchnad tir lle mae darpar dyfwyr yn cael eu prisio allan gan fuddsoddwyr corfforaethol gwrthbwyso carbon neu gynlluniau plannu coed. Gyda'i gilydd, roedd y pryderon hyn yn adlewyrchu pryderon ehangach am hyfywedd a hygyrchedd hirdymor ffermio yng Nghymru yn ystod y pontio at sero net.

6. Trafnidiaeth

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyfuniad o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a gasglwyd drwy'r rhaglen ymgynghori. Trefnir y canfyddiadau o amgylch y pum cwestiwn ymchwil a oedd yn sail i'r ymgynghori ac maent yn tynnu ynghyd dystiolaeth ar draws y gwahanol weithgareddau ymgynghori. Mae'r bennod yn nodi'r themâu allweddol a godwyd gan gyfranogwyr ynghylch y rhwystrau rhag datgarboneiddio trafnidiaeth, cyfleoedd i gyflymu newid, ac ystyriaethau ar gyfer sicrhau pontio teg a chyfiawn.

Rhwystrau rhag Cynnydd

Canfuwyd y themâu hyn wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa rwystrau sy'n sefyll yn ein ffordd?" o safbwynt y sector trafnidiaeth. Caiff dulliau posibl o fynd i'r afael â'r rhestrau hyn eu harchwilio mewn adrannau ymhellach ymlaen ar newid ymddygiad yn gynt a gwireddu potensial.

Cyfyngiadau Seilwaith a Gwasanaethau

Roedd cyfranogwyr yn nodi diffygion mewn seilwaith trafnidiaeth fel rhwystr sylweddol rhag newid. Roedd gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus yn cael eu disgrifio'n aml mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd a chan gyfranogwyr Cerdyn Post o'r Dyfodol a chynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru fel rhai sy'n cael neu'n annibynadwy ar hyn o bryd, gyda theithiau hir a chymhleth; amserau teithio hir; amserlenni annibynadwy; a gwasanaethau anghysurus. Y teimlad oedd bod y problemau hyn yn waeth mewn ardaloedd gwledig.

Roedd seilwaith gwefru cerbydau trydan yn annigonol ym marn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa a yn y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, datblygiadau tai cymdeithasol a lleoliadau lle nad oes gan breswylwyr fynedfeydd preifat i'w tai. Roedd cyfranogwyr yn awgrymu y gall y bylchau hyn gyfrannu at bryderon ynghylch pa mor ymarferol yw newid i opsiynau trafnidiaeth allyriadau-is.

O ran seilwaith teithio llesol, roedd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa yn amlygu pryderon bod llawer o leoedd yn cael wedi eu cynllunio o amgylch defnyddio ceir yn hytrach na theithio llesol. Cafodd amodau traffig, hygrededd a goleuadau annigonol eu nodi fel rhwystrau rhag cerdded a beicio, gyda phryderon penodol yn cael eu codi ynghylch diogelwch merched a phlant. Teimlai cyfranogwyr y gall yr amodau hyn gadw pobl draw rhag dewis opsiynau teithio llesol. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr yn gweld seilwaith fel un o ragamodau newid ymddygiad yn hytrach na disgwyl i newid ymddygiad ddigwydd cyn gwelliannau i seilwaith.

Rhwystrau Cost a Fforddiadwyedd

Cafodd cost opsiynau trafnidiaeth allyriadau-is ei nodi fel her sylweddol. Yn y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig, llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, a chyfranogwr Cerdyn Post o'r Dyfodol, nodwyd cost uchel ymlaen llaw

cerbydau trydan, y bernir eu bod yn rhy ddrud, yn enwedig i deuluoedd incwm-isel, hyd yn oed yn ail law. Roedd cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd a digwyddiadau'r Gronfa hefyd yn nodi cost ganfyddedig gwefru cerbydau trydan, gyda biliau ynni'n codi.

Roedd pryderon hefyd a godwyd yn y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig a llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa ynghylch fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig o ran teithiau pellter hir ar y rheilffordd a theithio i'r teulu cyfan. Ar draws ffynonellau tystiolaeth, roedd fforddiadwyedd yn cael ei gweld fel penderfynydd pwysig a oedd opsiynau trafnidiaeth allyriadau-is yn cael eu hystyried fel dewisiadau amgen realistig yn lle defnyddio ceir preifat.

Pryderon ynghylch Technolegau Trafnidiaeth

Roedd llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa yn codi pryderon ynghylch agweddau o dechnoleg cerbydau trydan, gan gynnwys diogelwch ac ansawdd cerbydau, a'u haddasrwydd ar gyfer anghenion gwledig. Yn benodol, roedd bywyd byr batris a'r amser mae'n ei gymryd i wefru yn cael eu hystyried fel rhwystrau rhag mynd amdanynt.

Roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa ac un o fynychwyr cynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd hefyd yn amlygu pryderon amgylcheddol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â mwyngloddio deunyddiau ar gyfer batris a gwaredu batris ar ddiwedd eu hoes, er bod mynychwr y gynhadledd rithwir yn codi'r cwestiwn ynghylch a yw beirniadaethau o gerbydau trydan yn anghymesur o llym o gymharu â'r graddau hanesyddol o dderbyn cerbydau tanwydd ffosil. Cafodd y pryderon hyn eu nodi fel rhwystrau posibl rhag mabwysiadu ehangach. Awgryma'r pryderon hyn fod pryderon sy'n ymwneud â pherfformiad ymarferol ac effeithiau amgylcheddol ehangach cerbydau trydan yn dal i ddylanwadu ar hyder y cyhoedd.

Rhwystrau Diwylliannol a Sgiliau

Roedd cyfranogwyr o un o ddigwyddiadau'r Gronfa a gweithdy CAST yn nodi ffactorau cymdeithasol a diwylliannol fel rhwystrau rhag newid, gan gynnwys canfyddiadau o deithio llesol a graddau ei apêl. Cafodd rhwystrau o ran sgiliau ymarferol eu nodi hefyd, gyda chyfranogwyr yn nodi diffyg hyder mewn beicio ar ffordd a bylchau mewn gwybodaeth am gynnal a chadw beiciau. Roedd cyfranogwyr yn awgrymu bod newid ymddygiadol yn dibynnu ar seilwaith yn ogystal â hyder, sgiliau, a newid arferion cymdeithasol ynghylch teithio llesol.

Newid Ymddygiad yn Gynt

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut allwn ni gael pobl i newid eu harferion a'u hymddygiad yn gynt er mwyn gwireddu'r manteision cyntaf?" o safbwynt y sector Trafnidiaeth.

Gwella Mynediad at Drafnidiaeth Gynaliadwy

Ym marn y nifer mwyaf o ymatebwyr i'r arolwg, annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (48%, n=23) oedd y cyfle mwyaf i gyflymu datgarboneiddio (ffigur 6). Roedd cyfranogwyr ar draws digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, cynhadledd

rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru a'r Cerdyn Post o'r Dyfodol a'r digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn gyson yn nodi gwelliannau i seilwaith trafndiaeth fel yr allwedd i gyflymu newid ymddygiad. Roedd galwadau mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa ac yn y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig am wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus mwy dibynadwy a helaethach gyda mwy o gysylltiadau a gwasanaethau aml, law yn llaw â thocynnau am brisiau mwy fforddiadwy. Mesurau hygyrchedd angenrheidiol eraill a nodwyd mewn digwyddiadau'r Gronfa oedd gwell ap gyda gwybodaeth am deithio integredig; gwybodaeth gliriach am amserlenni mewn arosfannau bws, a gwell mynediad di-ris a seddau.

Roedd llawer o gyfranogwyr digwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd hefyd yn amlygu pwysigrwydd creu amodau saffach ar gyfer teithio llesol, a oedd yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n darparu nifer o fuddion i'r hinsawdd ac i iechyd. Y teimlad oedd y byddai gwell seilwaith teithio llesol a gwneud cerdded a beicio yn opsiynau mwy deniadol ac ymarferol yn hanfodol er mwyn newid ymddygiad.

Yn ogystal, cafodd gwella fforddiadwyedd cerbydau trydan a mynediad at seilwaith gwefru eu nodi mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau fel cam pwysig ar gyfer cefnogi symudiad oddi wrth drafndiaeth allyriadau-uwch. Roedd awgrymiadau'n cynnwys marchnadoedd cerbydau trydan ail law, cerbydau trydan â chymorthdal, ac atebion ar gyfer gwefru ar y stryd mewn ardaloedd preswyl.

Cymell Dewisiadau Teithio Llesol

Roedd cyfranogwyr o lawer o ddigwyddiadau'r Gronfa ac un gynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn pwysleisio rôl cymhellion mewn annog dewisiadau teithio mwy cynaliadwy. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cynlluniau gwobrau ar gyfer ymddygiad teithio llesol, mentrau rhannu ceir, a chynlluniau beicio a rhannu ceir cymunedol a'r sector cyhoeddus. Roedd cyfranogwyr yn amlygu'r angen hefyd am fecanweithiau cyllid symlach a chyllidebau unswydd, gan gynnwys cymorth gweithleoedd i deithio ar drên, bws neu feic. Roedd cyfranogwyr ar y cyfan o'r farn fod cymhellion cadarnhaol yn fwy derbyniol na mesurau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau teithio.


Meithrin Diwylliant o Deithio Cynaliadwy

Roedd cyfranogwyr yn amlygu pwysigrwydd newid diwylliannol ac ymddygiadol er mwyn lleihau allyriadau trafnidiaeth. Ar draws digwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, gweithdai creu gweledigaeth CAST a chynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru, cafodd ysgolion a gweithleoedd eu nodi fel lleoliadau pwysig ar gyfer annog ymddygiadau fel teithio llesol, gweithio hyblyg ac amserau cychwyn gwasgaredig. Roedd rhanddeiliaid o amryw ddigwyddiadau'r Gronfa a'r Wythnos Hinsawdd hefyd yn pwysleisio rôl cyfathrebu ac adrodd, gan gynnwys ymgyrchoedd newid ymddygiad, rhannu enghreifftiau o arferion da, a chysylltu negeseuon datgarboneiddio â chanlyniadau ehangach.

Yn ehangach, roedd galwadau am fwy o weithgarwch cymunedol mewn cynllunio trafnidiaeth er mwyn helpu i ddatblygu systemau trafnidiaeth mae pobl yn ymddiried

ynddynt ac yn fodlon eu defnyddio. Mae data arolwg (ffigur 6) yn dangos mai cyfyngedig yw'r gefnogaeth i fesurau lleihau galw fel modd o annog datgarboneiddio trafnidiaeth. Roedd mynychwyr cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn nodi bod dulliau seiliedig ar orfodi â'r risg o gael eu canfod fel mesurau annheg lle nad oes gan bobl fynediad at ddewisiadau eraill fforddiadwy ac ymarferol.

Ffigur 6: Beth yw'r cyfleoedd mwyaf i gyflymu datgarboneiddio dros y 5 mlynedd nesaf? - Trafnidiaeth



Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Ddata Arolwg Cynhadledd Rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru (n=23, aml-ddewis)

Gwireddu Potensial

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Sut ydyn ni'n gwireddu'r potensial yng Nghymru, er enghraifft, i wella cynhyrchiant, diogelu cyflenwadau ynni'n cartref, a'i gwneud yn haws i symud o gwmpas mewn ffyrdd glanach, gwyrddach?" o safbwynt y sector trafnidiaeth.

Buddsoddi mewn Atebion Trafnidiaeth Newydd

Roedd cyfranogwyr ar draws amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, yn ogystal â mynychwyr Cerdyn Post o'r Dyfodol a siaradwyr yng nghynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn amlygu cyfleoedd i fuddsoddi mewn amrywiaeth ehangach o dechnolegau a systemau trafnidiaeth. Roedd awgrymiadau'n cynnwys celloedd tanwydd hydrogen, cynhyrchu ynni adnewyddadwy i gefnogi trydaneiddio, a ffurfiau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus megis tramiau. Roedd y rhain yn cael eu gweld fel cyfleoedd i gryfhau'r system drafnidiaeth trwy ddarparu cysylltiadau newydd rhwng trefi, ac ategu llwybrau datgarboneiddio presennol trwy bontio bylchau lle mae technoleg cerbydau trydan yn wynebu heriau.

Lleihau'r Angen i Deithio Trwy Gynllunio

Roedd cyfranogwyr o ddigwyddiadau'r Gronfa, gweithdai creu gweledigaeth CAST, a chynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru yn nodi cynllunio trefol ac adfywio canol trefi fel cyfleoedd pwysig ar gyfer newid. Roedd trafodaethau'n amlygu potensial dulliau lleol iawn sy'n gwella mynediad at swyddi, gwasanaethau ac amwynderau o fewn cymunedau, gan helpu i leihau'r angen i deithio. Roedd rhai mynychwyr ar draws digwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn nodi sut y gallai cymunedau sy'n sylwi ar fuddion o fewn eu cymunedau eu hunain feithrin gwell ymddiriedaeth a gweithredu.

Arloesi a Dulliau Newydd

Roedd siaradwyr a chyfranogwyr amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa a chynhadledd rithwyr yr Wythnos Hinsawdd yn amlygu pwysigrwydd treialu dulliau arloesol o leihau allyriadau trafnidiaeth a gwella effeithlonrwydd trafnidiaeth. Roedd awgrymiadau'n cynnwys newidiadau i'r wythnos waith, a allai ym marn rhai leihau'r galw am drafnidiaeth, law yn llaw â fframweithiau prisio ffyrdd a dulliau eraill o ymdrin â logisteg trefol, megis beiciau cargo a chludwyr ar feic ar gyfer milltir olaf dosbarthu.

Cafodd cynlluniau gwefru cymunedol hefyd eu nodi fel cyfle i gefnogi'r pontio at drafnidiaeth allyriadau-is. Roedd cyfranogwyr o un o ddigwyddiadau'r Gronfa yn awgrymu gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn cyfleusterau cymunedol, gyda chynlluniau gwefru'n cael eu cynllunio i ddarparu buddion i ardaloedd lleol tra'n gwella mynediad at wefru.

Arweiniad, Cydweithio a Chynyddu Newid

Roedd cyfranogwyr a siaradwyr cynhadledd rithiol yr Wythnos Hinsawdd, ynghyd â chyfranogwyr o ddau o ddigwyddiad y Gronfa, yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus, busnesau, darparwyr ynni a chymunedau mewn creu sector trafnidiaeth llewyrchus. Y farn oedd bod dull mwy cydgysylltiedig yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â heriau sy'n torri ar draws sectorau, gan gynnwys y rheini y tu hwnt i drafnidiaeth ei hun. Roedd cyfranogwyr o un o ddigwyddiadau'r Gronfa ac un o gynhadledd rithwyr yr Wythnos Hinsawdd yn amlygu pwysigrwydd cydgynhyrchu atebion trafnidiaeth gyda chymunedau, er mwyn sicrhau bod anghenion a phrofiadau lleol yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau ac yn meithrin teimlad o berchnogaeth dros newidiadau a gynigir.

Roedd cyfranogwyr yn nodi cyfleoedd hefyd am arweiniad cryfach a gweithredu cydgysylltiedig i gefnogi'r pontio. Roedd awgrymiadau'n cynnwys canllawiau cenedlaethol ar gymhellion teithio gweithleoedd, cymorthdaliadau ar gyfer tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus, a dulliau eraill o annog dewisiadau teithio cynaliadwy. Roedd galwadau hefyd gan fynychwyr cynhadledd rithwir Wythnos Hinsawdd Cymru a chyfranogwyr mewn amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd am rannu mwy o'r arferion gorau, gan gynnwys yr hyn a ddysgir o ddulliau llwyddiannus a roddir ar waith mewn lleoedd eraill. Roedd cyfranogwyr yn amlygu rôl bwysig cyrff cyhoeddus mewn arwain trwy esiampl, gan ddangos beth sy'n bosibl a chefnogi cynnydd trwy dargedau clir, mesuradwy.

Lleihau Allyriadau ac Adeiladu Gwydnwch

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: Sut allwn ni leihau allyriadau ac ar yr un pryd wella'n gallu i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid?" o safbwynt y sector trafnidiaeth.

Roedd un siaradwr yng nghynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd yn awgrymu bod gan Gymru, trwy feithrin cydweithio a gwydnwch, lleihau dibyniaeth ar olwg a chryfhau cadwyni cyflenwi, gyfle i arwain trawsnewidiad trafnidiaeth sy'n cyflawni buddion amgylcheddol ac economaidd. Mae hyn yn amlygu'r potensial i ddatgarboneiddio trafnidiaeth gefnogi amcanion ehangach law yn llaw â lleihau allyriadau.

Roedd pobl ifanc o un o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn gweld trafnidiaeth gynaliadwy fel buddsoddiad yn eu dyfodol yn ogystal â rheidrwydd amgylcheddol. Awgryma hyn fod datgarboneiddio trafnidiaeth yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyflawni buddion hirdymor y tu hwnt i leihau allyriadau yn unig, gan gadarnhau pwysigrwydd cymryd camau i greu system drafnidiaeth fwy cynaliadwy a gwydn.

Risgiau a Chanlyniadau i'w hosgoi, i sicrhau Pontio Teg

Canfuwyd y themâu canlynol yn y data wrth ystyried y cwestiwn ymchwil: "Pa risgiau neu ganlyniadau mae angen inni weithio gyda'n gilydd i'w hosgoi, i sicrhau pontio teg a chyfiawn?" o safbwynt y sector trafnidiaeth.

Allgáu

Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod mynediad at drafnidiaeth gynaliadwy yn deg a chynhwysol. Mewn llawer o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd, codwyd pryderon fod rhai grwpiau eisoes yn wynebu problemau mynediad at drafnidiaeth neu y gallai newidiadau trafnidiaeth effeithio'n anghymesur arnynt, gan gynnwys pobl iau a phobl hŷn, pobl ag anableddau. Roedd y digwyddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn codi'r risg o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau rhag trafnidiaeth gynaliadwy, tra soniodd siaradwr yng nghynhadledd rithwir yr Wythnos Hinsawdd am y rheini sy'n profi allgáu digidol. Roedd cyfranogwyr yn amlygu'r angen i sicrhau nad yw ymdrechion datgarboneiddio yn creu rhwystrau ychwanegol rhag teithio nac yn gwaethygu anghydraddoldeb sy'n bod eisoes (er enghraifft rhwng ardaloedd trefol a gwledig).

Effeithiau Cymdeithasol Anfwriadol

Roedd amryw o ddigwyddiadau'r Gronfa Sgyrsiau am yr Hinsawdd yn amlygu'r rôl bwysig y gall trafnidiaeth gyhoeddus ei chwarae mewn cefnogi cydlyniaeth cymunedol a galluogi cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol. Awgryma hyn y dylai newidiadau i systemau trafnidiaeth ystyried, yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, y rôl ehangach mae trafnidiaeth yn ei chwarae mewn cysylltu pobl a chymunedau. Roedd un o ddigwyddiadau'r Gronfa a siaradwr yng nghynhadledd rithwir

yr Wythnos Hinsawdd yn pwysleisio'r angen hefyd i sicrhau nad yw newidiadau yn rhoi'r rheini sy'n agored i aflonyddu neu wahaniaethu mewn mwy o risg.

Datblygu Atebion neb Fewnbwn Cymunedol

Yng ngoleuni'r rhwystrau a'r risgiau, roedd cyfranogwyr o ddigwyddiad y Gronfa a chynhadledd rithiol yr Wythnos Hinsawdd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys cymunedau mewn cynlluniau a phenderfyniadau trafnidiaeth. Roedd barn helaeth fod gwasanaethau trafnidiaeth yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion lleol pan fod cymunedau'n cyfrannu'n ymarferol at eu cynllunio a'u gweithredu. Roedd cyfranogwyr yn awgrymu y bydd gweithgarwch cymunedol ystyrlon yn bwysig wrth sicrhau bod newidiadau i drafnidiaeth yn effeithiol ac yn deg.

7. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi cyfuno tystiolaeth a gasglwyd trwy'r rhaglen ymgynghori i ganfod y prif gyfleoedd, rhwystrau, a risgiau sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau tra'n cefnogi pontio teg. Er bod canfyddiadau'n amrywio rhwng sectorau a grwpiau cyfranogwyr, daeth sawl thema gyson i'r amlwg ar draws y sail dystiolaeth.

Roedd cyfranogwyr yn pwysleisio y bydd cyflawni gostyngiadau ystyrlon mewn allyriadau yn gofyn am fwy na newid mewn ymddygiad unigolion yn unig. Mae cynnydd yn dibynnu ar greu'r amodau sy'n galluogi dewisiadau carbon is trwy bolisi cefnogol, buddsoddi, seilwaith, cyd-fuddion, cydweithio a phenderfyniadau cynhwysol.

Mae'r casgliadau canlynol yn crynhoi'r prif flaenoriaethau trawsbynciol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghori cyhoeddus ac maent yn amlygu'r meysydd lle credai cyfranogwyr y gallai camau gweithredu yn y Cynllun Cyllideb Carbon nesaf fod â'r potensial mwyaf i gyflymu datgarboneiddio, cynyddu gwydnwch a chefnogi pontio teg i gymunedau ledled Cymru.

1. Galluogi Newid

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad y brif her yw perswadio pobl i weithredu ond eu galluogi nhw i wneud hynny. Ar draws sectorau, roedd cyfranogwyr yn nodi rhwystrau ymarferol sy'n cynnwys cost, seilwaith, y gallu i gael gwybodaeth a dewisiadau cyfyngedig. Mae hyn yn dangos bod polisïau lleihau carbon yn debygol o fod fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau a pheri mai opsiynau carbon isel yw'r dewisiadau mwyaf hygyrch a hwylus sydd o fudd i fywydau pobl.

Awgryma'r dystiolaeth fod mesurau polisi sy'n mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol yn debygol o fod yn bwysig wrth gefnogi cyfranogiad ehangach mewn dewisiadau carbon is. Mae enghreifftiau a godwyd trwy'r ymgynghori yn cynnwys:

- Ehangu cynlluniau cyllid a chymorth fforddiadwy a hygyrch.
- Buddsoddi mewn seilwaith galluogi, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau teithio llesol, a gwefru cerbydau trydan.
- Symleiddio'r gallu i gael gafael ar wybodaeth a chymorth, sicrhau bod cynlluniau'n hawdd eu deall a'u chwilio.
- Cael gwared ar rwystrau ariannol rhag cymryd rhan trwy wella mynediad at opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy fforddiadwy.

2. Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymunedau

Ar draws pob un o'r tri maes polisi, roedd cyfranogwyr yn cysylltu llwyddiant camau gweithredu hinsawdd yn gyson ag ymddiriedaeth, cyfranogiad, a pherchnogaeth leol. Awgryma'r canfyddiadau fod cefnogaeth y cyhoedd i weithredu ar yr hinsawdd yn dibynnu i raddau helaeth ar fod pobl yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio'r newidiadau sy'n effeithio arnynt.

Mae enghreifftiau a godwyd trwy'r ymgynghori yn cynnwys:

- Ymgorffori cydgynhyrchu a chyfraniad cymunedol o fewn datblygu a gweithredu polisi.
- Cefnogi mentrau o dan arweiniad y gymuned, megis tyfu bwyd lleol, gwefru cymunedol a phrosiectau gweithredu lleol ar yr hinsawdd.
- Cryfhau mecanweithiau ar gyfer ymgynghori parhaus â'r cyhoedd a derbyn adborth ganddynt.
- Rhannu enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus dan arweiniad y gymuned ac annog dysgu gan gymheiriaid.

3. Cynllunio ar gyfer Tegwch o'r Cychwyn

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn amlygu gwahaniaethau mewn anghenion, cyfleoedd a rhwystrau ar draws lleoedd a phoblogaethau. Mae cymunedau gwledig a threfol yn wynebu heriau gwahanol, gyda ffactorau megis incwm, anabledd, oed, ethnigrwydd ac allgáu digidol yn gallu effeithio ar allu pobl i gymryd rhan yn y pontio. Awgryma'r canfyddiadau y bydd angen dulliau hyblyg, cynhwysol ac ymatebol yn lleol er mwyn gweithredu pontio teg.

Mae enghreifftiau a godwyd trwy'r ymgynghori yn cynnwys:

- Asesu sut mae polisïau arfaethedig yn effeithio ar wahanol grwpiau a lleoedd.
- Sicrhau bod cynlluniau cyllid, cymelliannau a chymorth yn hygyrch i amrywiaeth helaeth o deuluoedd a chymunedau.
- Datblygu dulliau penodol ar gyfer cyd-destunau gwledig a threfol.
- Blaenoriaethu hygyrchedd a chynhwysiant o fewn polisïau trafnidiaeth, tai ac ynni.

4. Canolbwyntio ar Newidiadau a ddaw â Manteision Lluosog

Roedd cyfranogwyr yn gyson yn nodi sawl maes a allai gyflawni lleihad sylweddol mewn allyriadau gan hefyd ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu mai'r polisïau sy'n gyflawni amcanion lluosog sy'n debygol o ddenu'r gefnogaeth gyhoeddus fwyaf ac o greu sylfeini cryfach ar gyfer newid hirdymor.

Mae enghreifftiau a godwyd trwy'r ymgynghori yn cynnwys:

- Ehangu trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol ac atebion rhannu trafnidiaeth.
- Buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith ategol.
- Cefnogi rheoli tir mewn modd cynaliadwy, gwella bioamrywiaeth ac atebion seiliedig ar natur.
- Cryfhau systemau bwyd lleol a chadwyni cyflenwi byrrach.
- Datblygu swyddi gwyrdd, sgiliau a llwybrau gweithluoedd i helpu i gyflawni'r pontio.

Casgliad

Yn gyffredinol, awgryma'r rhaglen ymgynghori fod cyfranogwyr yn cydnabod graddfa'r her a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r pontio at sero net. Er bod rhwystrau sy'n ymwneud â fforddiadwyedd, seilwaith, a mynediad yn dal i fod yn sylweddol, roedd cefnogaeth

eang i ddulliau cydweithredol sy'n cyfuno lleihau allyriadau â manteision cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn darparu sail dystiolaeth i arwain datblygiad Cynllun Cyllideb Carbon 3 ac i gefnogi pontio sy'n effeithiol ac yn deg.